# Y DINESYDD

Mai 2018 Papur Pobl Caerdydd a'r Fro Rhif 427 £1


## PEN-BLWYDD HAPUS MENTER CAERDYDD







# 20 mlynedd o fwrlwm Cymraeg

Cyfweliad ar dudalen 3

# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**Ioan Kidd**

***Golygydd Mehefin***
***Miranda Morton***

Cyfraniadau erbyn 27 Mai i:
telynores.ysblot@yahoo.co.uk
32 Stryd Arthur, Y Rhath,
Caerdydd, CF24 1QR
0771 3765692

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Prif Ddosbarthwr:
Ceri Morgan
ceri33@btopenworld.com
24, Cwm Gwynlais, Tongwynlais,
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812 / 07774816209

Tanysgrifiadau i:
Jöel D'Auria
joel.dauria@gmail.com
53 Melrose Avenue, Penylan,
Caerdydd, CF23 9AT
07540057783

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Gwasg Morgannwg, Castell-nedd.
Cysodydd: Eirian Dafydd

Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru


## Siopau sy'n gwerthu'r Dinesydd

**CABAN**, Pontcanna
**CANT A MIL VINTAGE**, 100 Whitchurch Rd.
**CHAPTER**, Treganna
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP BODLON**, Yr Hen Lyfrgell, Yr Ais
**SIOP Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY**, Rhiwbeina

# DR HEFIN JONES - ENILLYDD Y FEDAL WYDDONIAETH



Er mai fel crwt o Bencader, Sir Gaerfyrddin y byddai'r Dr Hefin Jones yn disgrifio ei hun, fe allem ni drigolion y brifddinas hawlio ei fod yn un ohonom ninnau bellach. Pleser felly yw ei longyfarch ar gael ei anrhydeddu â'r Fedal Wyddoniaeth yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni.

Wedi treulio rhai blynyddoedd dros y ffin yn astudio ac yn ymchwilio, dychwelodd i Gymru ac i Gaerdydd yn y flwyddyn 2000 fel uwch-ddarlithydd yn Ysgol y Biowyddorau, Prifysgol Caerdydd. Mae ei ddiddordebau ymchwil yn cwmpasu testunau megis ecoleg, newid hinsawdd a bioamrywiaeth.

Ond nid ei lwyddiannau ym myd academia a enillodd y Fedal Wyddoniaeth iddo ond y pwyslais a roddodd ar sgwrsio am a thrafod Gwyddoniaeth mewn Cymraeg graenus, rhwydd ei deall a'i anogaeth gyson i fyfyrwyr i ddilyn rhannau o'u cyrsiau yn y Brifysgol trwy gyfrwng y Gymraeg. Bu'n flaengar wrth sicrhau darpariaeth tiwtorialau, darlithoedd, cyrsiau maes a gwaith ymarferol trwy gyfrwng y Gymraeg nid yn unig yn Ysgol y Biowyddorau ond hefyd i ddarpar feddygon yn yr Ysgol Feddygol. Ers 2011 ef yw Deon y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a chadeirydd Bwrdd Academaidd y Coleg.

Dros y blynyddoedd cyhoeddodd nifer o erthyglau gwyddonol mewn cylchgronau Cymraeg a'r llynedd cyhoeddodd lyfr ar y cyd gyda'r Parch. Dr Noel Davies, 'Cristnogaeth a Gwyddoniaeth'. Y mae hefyd yn llais ac yn wyneb cyfarwydd ar y cyfryngau pan fydd angen trafod materion gwyddonol mewn cyd-destun Cymraeg.

Bydd y seremoni i'w anrhydeddu yn digwydd fore Iau, 9 Awst, am 11.45 yn y Pagoda. Gobeithio y gall nifer o ddinasyddion y brifddinas ymgynnull yno ar yr amser yma i anrhydeddu enillydd haeddiannol a theilwng iawn ac un a fydd, heb unrhyw amheuaeth, yn parhau i hyrwyddo ac i gyfrannu at y defnydd o'r Gymraeg ym myd Gwyddoniaeth.

---

# DINESYDD YR EISTEDDFOD

Diolch i'r rhai ohonoch chi sy wedi cynnig syniadau ar gyfer y rhifyn arbennig hwn. Mae'n argoeli i fod yn rhifyn diddorol!

Oherwydd bod y rhifyn hwn yn ymddangos ym mis Awst, penderfynwyd gwneud rhifyn Mehefin yn un dwbl, sef Mehefin/Gorffennaf – yn hytrach na'r drefn arferol Gorffennaf/Awst. Bydd y rhai sydd wedi tanysgrifio yn derbyn rhifyn yr Eisteddfod yn ôl y drefn arferol.

Felly os oes gyda chi newyddion neu stori i'w rhoi yn rhifyn **Mehefin/Gorffennaf**, cofiwch bod angen i'r deunydd ddod i law erbyn **27 Mai**. Mae cynnwys rhifyn Awst yn cael ei drefnu ymlaen llaw.

Ar ran y pwyllgor, diolch am gefnogi Papur Caerdydd a'r Fro.
Bryan James (Cadeirydd)

# Pen-blwydd Hapus yn 20 oed!

*Erbyn hyn, mae'n anodd dychmygu bywyd cymdeithasol y brifddinas heb gyfraniad Menter Caerdydd. Yn ystod y cyfnod y bu'r Fenter wrthi mae'r bwrlwm Cymraeg wedi dod yn amlwg i bawb ei weld. Ym mis Mehefin, bydd hi'n dathlu ei phen-blwydd yn ugain oed. Bu'r* Dinesydd *yn holi Manon Rees O'Brien, y Prif Weithredwr newydd, ynghylch ei gobeithion i'r dyfodol.*

**Manon:** Pan sefydlwyd Menter Caerdydd yn 1998, y bwriad oedd ffeindio ffordd i blant a phobl ifanc - ac i oedolion hefyd - ddefnyddio'r iaith Gymraeg y tu allan i furiau'r ysgol a muriau'r gwaith a gwneud yr iaith yn fwy cymdeithasol.





**Dinesydd:** Ydych chi'n meddwl eich bod chi fel mudiad wedi cyflawni hynny?

**Manon:** 'Swn i'n deud bod ni ar y llwybr. Mae'r tirlun yn wahanol iawn heddiw i'r hyn oedd o ugain mlynedd yn ôl a gobeithio y bydd o'n edrych yn wahanol eto ugain mlynedd o rŵan. Mae gynnon ni lawer iawn o lwyddiannau 'dan ni'n falch ohonyn nhw. Mae nifer o'r bobl brofodd rai o'r clybiau pan oedden nhw'n ifanc... wel efallai fod ganddyn nhw eu plant eu hunain rŵan ac yn defnyddio ein cynlluniau gofal a rhai o'r gweithgareddau ar gyfer oedolion. 'Dan ni'n gobeithio bod y Fenter wedi tyfu gyda'r gynulleidfa. Mae Menter Bro Morgannwg ar y llaw arall yn fenter ifanc iawn, ond eto'n cyflawni gwaith gwych yn y prin amser yma.

**Dinesydd:** Soniwch am rai uchafbwyntiau'n benodol.

**Manon:** Mae'n siŵr mai'r enghraifft mae pawb yn disgwyl imi ei rhoi ydy Tafwyl, a heb os mae Tafwyl yn parhau i fod yn llwyddiant. 'Dan ni'n ôl yn y Castell eleni ac yn gobeithio ychwanegu at y 38,000 ddaeth yn ystod y naw diwrnod llynedd. Mae Tafwyl yn gyfle gwych i roi llwyfan i waith y Fenter wrth i deuluoedd a dysgwyr a'r di-Gymraeg ddod ynghyd i fwynhau arlwy eang o weithgareddau. Mae Gŵyl Fach y Fro hefyd yn ŵyl sy'n tyfu yn ei phoblogrwydd gan geisio darbwyllo trigolion y Fro mai iaith gymdeithasol, fyw ydy'r Gymraeg. Enghraifft arall ydy'r clybiau plant. Mae gynnon ni dros ugain o glybiau ar hyd a lled y ddinas. Mae dros 43,000 o bobl ar draws Caerdydd yn defnyddio'r Fenter ar gyfer gwahanol weithgareddau, boed hynny'n glybiau chwaraeon, clybiau ukulele, clybiau dawns, gwersi nofio ac yn y blaen, neu glybiau oedolion fel ioga, cynganeddu a llawer mwy. 'Dan ni'n awyddus i sgwrsio â phobl ifanc ar hyd y ddinas a'r Fro i ddatblygu syniadau ar eu cyfer achos 'dan ni'n eu gweld nhw'n gynulleidfa bwysig ofnadwy. Dw i'n gobeithio y bydd pobl yn cytuno ein bod ni'n symud gyda'r amser a bod y gwasanaeth 'dan ni'n ei gynnig yn newid yn gyson wrth i ofynion newid.

**Dinesydd:** Ers faint y'ch chi yn eich swydd?

**Manon:** Ers dechrau mis Chwefror. Roeddwn i'n gyfarwydd â Chaerdydd a'r Fro cyn cael y swydd ond rŵan, gan 'mod i'n brif weithredwr ar Fenter Caerdydd a Menter Bro Morgannwg hefyd, mae dod i nabod yr ardaloedd o safbwynt gwahanol yn brofiad dw i'n ei fwynhau'n fawr. Dw i wrth fy modd yma ac mae'r gweithlu o fewn y mentrau'n wych. Mae'r holl bartneriaid sy gynnon ni'n hynod o bwysig a hebddyn nhw byddai bywyd yn anodd iawn.

**Dinesydd:** Beth yw'ch cynlluniau i'r dyfodol?

**Manon:** Mwy na dim, siarad â'r gynulleidfa i sicrhau bod y gwasanaeth yn cadw'n bwrpasol. Byddwn ni'n datblygu cynllun corfforaethol newydd ar gyfer y ddwy fenter o 2019 ymlaen i sicrhau cyllideb hirdymor, gobeithio, gan y llywodraeth a'r cynghorau. Felly lot o sgwrsio ac ymdrin â'r data i weld beth ydy effaith gwaith Menter Caerdydd a Menter Bro Morgannwg ar siaradwyr Cymraeg... ble allen ni ehangu. Felly byddwn ni'n ailedrych ar y map ac efallai'n moderneiddio rhai o'r pethau 'dan ni'n gwneud o ran technoleg gwybodaeth. 'Dan ni wedi dechrau gweithio gyda Wici Caerdydd a gwneud ychydig o waith efo Snapchat i apelio at bobl yn eu harddegau hwyr ac ugeiniau cynnar. Gweithio ar y cyd gyda mentrau iaith eraill achos yr un yw'r sialensau i bawb. Dydy'r bunt ddim yn mynd mor bell ag o'r blaen ac mae apelio at noddwyr wedi bod yn heriol eleni a phobl yn sôn am effaith Brexit ar barodrwydd pobl i roi, yn enwedig y cwmnïau mawrion. Felly mae mynd allan i ddangos ein gwerth a'r effaith 'da ni'n ei gael yn bwysicach nag erioed.

**Dinesydd:** Pen-blwydd Hapus i'r Fenter yn ugain oed. Sut byddwch chi'n dathlu?

**Manon:** Ar yr ugeinfed o bob mis ers dechrau'r flwyddyn 'dan ni wedi bod yn rhoi negeseuon ar bethau fel Twitter a Facebook er mwyn sôn am ryw agwedd o waith Menter Caerdydd. Ar yr ugeinfed o Ebrill fe gyhoeddon ni y byddwn ni'n lansio gwefan newydd a dylai honno fod ar gael ym mis Mai. Ei phwrpas fydd gwneud y gwasanaeth yn fwy hwylus i'n cwsmeriaid fel ei bod yn haws archebu lle ar gwrs neu mewn clwb, er enghraifft. Bydd y wefan newydd yn safle gwych i rannu gwybodaeth a hysbysebu digwyddiadau. Wedyn, ar ôl Gŵyl Fach y Fro, Tafwyl a'r Eisteddfod, wrth i bethau dawelu ychydig tua diwedd y flwyddyn, 'dan ni'n bwriadu cael dathliad bach yn yr hydref.

# Ysgol Glan Morfa

**Eisteddfod yr Urdd**

Hoffwn longyfarch pob plentyn a gynrychiolodd yr ysgol yn y cystadlaethau unigol. Mi wnaethon nhw i gyd berfformio'n wych. Diolch i'r holl athrawon, cymorthyddion a rhieni a fu'n eu hyfforddi. Yng nghystadleuaeth olaf y dydd fe lwyddodd côr yr ysgol i gipio'r ail wobr! Dyma'r tro cyntaf yn hanes yr ysgol iddynt gystadlu. Rwyf mor falch dros y plant a'r staff sydd wedi bod yn brysur yn ymarfer dros y misoedd diwethaf. Hoffwn gymryd y cyfle hwn hefyd i ddiolch i bawb a ddaeth i gefnogi. Dwi'n sîwr y byddwch yn cytuno bod aros hyd y diwedd yn werth pob eiliad!

**Diwrnod Tafwyl**

Llwyddom i godi £160 tuag at Tafwyl eleni. Diolch i bawb am eu cyfraniad gwerthfawr i'r ŵyl arbennig hon.

**Twrnamaint Rygbi**

Llongyfarchiadau i dimoedd rygbi bechgyn a merched yr ysgol fu'n cystadlu yn Nhwrnamaint Rygbi'r Urdd yn ddiweddar yng Nghaeau Llandaf. Cafwyd perfformiadau gwych ac anlwcus oedd y ddau dîm i beidio â mynd trwodd i'r rowndiau pellach. Diolch i Mrs Murray a Miss Williams am fynd â'r plant.

**Ymweliad Morgan Sindall**

Fel rhan o weithgareddau'r adeilad newydd, fe ddaeth Mike Little o Morgan Sindall i weithio gyda disgyblion blynyddoedd 5 a 6 ar greu ysgol ddelfrydol! Rhaid oedd i'r plant ddefnyddio sgiliau Mathemateg i brisio'r holl bethau amrywiol sydd eu hangen ar ysgol. Roedd y plant wedi mwynhau'n fawr a dysgu llawer!



**Adeilad Newydd**

Yn ddiweddar, bu neb llai na Phrif Weinidog Cymru, Carwyn Jones, yn ymweld â'n hadeilad newydd. Bydd yr adeilad anhygoel hwn yn agor ei ddrysau ym mis Medi 2018. Rydym i gyd yn edrych ymlaen yn eiddgar!

*Meilir Tomos, Pennaeth*

**Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod y Llyfr**

Braf oedd gweld y plant yn mwynhau'r diwrnodau hyn ar ôl eu gohirio oherwydd yr eira. Cawsom gyngerdd hyfryd i ddathlu diwrnod ein nawddsant.

**Gwasg Carreg Gwalch**

Diolch yn fawr i Wasg Carreg Gwalch, Llanrwst, am gyfrannu dros 50 o lyfrau i'r ysgol. Fe fydd y llyfrau hyn yn mynd tuag at ein llyfrgell yn yr adeilad newydd.



---

# Ysgol Y Wern

**Celf a Chrefft**

Llongyfarchiadau mawr i Gino Williams, Mari Fflur ac Oni Gwen am eu llwyddiannau unigol gyda gwaith celf Eisteddfod yr Urdd 2018.
Da iawn i bawb yng Nghlwb Celf yr ysgol am eu cyfraniad tuag at waith tecstilau yr Urdd. Daeth y grŵp yn fuddugol yn yr Eisteddfod Rhanbarth.

**Gwyddbwyll**

Llongyfarchiadau i Finn Osborne a ddaeth yn gyntaf yng nghystadleuaeth gwyddbwyll 'MegaFinal' i fechgyn dan 8 oed. Hefyd Nona Roberts a ddaeth yn drydydd i ferched dan 8 oed a Jack Neale a ddaeth yn drydydd i fechgyn dan 9 oed. Da iawn bawb.

**Only Kids Aloud**

Llongyfarchiadau i Louise Harvey o Flwyddyn 6 sydd wedi cael ei derbyn i gôr 'Only Kids Aloud' ar ôl llwyddo mewn clyweliad. Mae hi'n siŵr o gael profiadau amrywiol a chyffrous fel rhan o'r côr.

**Cwis Llyfrau**

Fe fydd tîm cwis Blwyddyn 3 a 4 Ysgol y Wern yn cynrychioli Caerdydd yn y Cwis Llyfrau yn Aberystwyth ym mis Mehefin. Dymunwn bob llwyddiant iddynt.

**Criced**

Llongyfarchiadau mawr i Rhys Matthews o Flwyddyn 6 sydd wedi cael ei ddewis i fod yn rhan o garfan criced Cymru dan 11 ar gyfer y tymor.



# Ysgol Gwaelod Y Garth

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Mrs Helen Davies ar enedigaeth ei bachgen bach, Cynan Jâms Davies.

**Cyngor Ysgol**
Mae'r Cyngor Ysgol wedi bod yn brysur yn trefnu digwyddiadau i godi arian at elusennau. Y tymor diwethaf, trefnodd y Cyngor Ysgol Swmbathon er budd yr NSPCC. Fe arweiniodd Miss Thomas yr holl ysgol wrth ddawnsio am hanner awr yn ddi-stop! Codon ni £1400.

**Ymweliadau**
Cafodd Blwyddyn 1 gyfle i ymweld ag Eglwys Ffynnon Taf. Roedd y Parchedig Cathy Gale yno i'n croesawu ac i ddangos yr arteffactau a welir mewn eglwysi.
Yn ystod tymor y gwanwyn, aeth nifer o ddosbarthiadau ar daith i Ganolfan Dŵr Cymru yn Rhostir Cog. Yn ystod y daith, dysgom am faint o ddŵr yr ydym yn ei ddefnyddio bob dydd a sut y gallwn arbed dŵr trwy wneud newidiadau.

**Eisteddfodau**
Llongyfarchiadau i bawb a wnaeth gystadlu yn yr Eisteddfodau Ysgol, Cylch a'r Sir eleni. Rydym yn falch iawn ohonoch i gyd. Llongyfarchiadau i Ela Williams, Awen Gwilym Davies, Erin Jardine, Alys Webb, Ana Gwen Wigley, Elliw Rhys, Mia Owen a'r Grŵp Dawnsio Hip-Hop a fydd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd Brycheiniog a Maesyfed ym mis Mai. Diolch i bawb sydd wedi bod yn brysur yn eu hyfforddi



**Sefydliad y Merched**
Bob dydd Gwener, mae plant Blwyddyn 5 yn mwynhau dysgu sgiliau newydd gyda Sefydliad y Merched, Gwaelod y Garth. Maent yn dysgu coginio, gwnïo, gwau a chreu pethau amrywiol. Pan yn coginio mae pob plentyn yn gwisgo ffedog maent wedi ei haddurno eu hunain.

**Ymgyrchu**
Dros y tymor diwethaf, rydym wedi bod yn dysgu am blastig yn y môr. Fel rhan o'r gwaith rydym wedi ysgrifennu llythyron at McDonalds yn gofyn iddynt leihau faint o blastig maen nhw'n ei ddefnyddio bob dydd! Rydym hefyd wedi ysgrifennu at Leslie Griffiths AC i dynnu ei sylw hi at y broblem arswydus o blastig yn ein môr a sut gallwn wella'r sefyllfa. Mae'r Clwb Eco wrthi yn addysgu'r ysgol gyfan am sut fedrwn ni helpu'r ymgyrch hon.



---

## Gwirfoddolwyr Tafwyl

Gyda'r haul wedi dychwelyd i'r ddinas (o'r diwedd!) a'r haf yn prysur agosáu, mae Menter Caerdydd yn edrych ymlaen yn gyffrous at Tafwyl eleni ac yn awyddus i estyn gwahoddiad i unigolion cyfeillgar a brwdfrydig ymuno â ni fel gwirfoddolwyr.

Cynhelir yr ŵyl ar y 30ain o Fehefin a'r 1af o Orffennaf ac mae'r lein-yp a gyhoeddwyd yn ôl ym mis Mawrth gan niwrnod cyn yr ŵyl ei hun - yn sicr o ddarparu rhywbeth at ddant pawb. Bydd llwyfannau yn cynnig adloniant o bob math gan gynnwys trafodaethau, comedi, bandiau, perfformiadau acwstig, adloniant plant, arddangosfeydd coginio a chwaraeon i enwi dim ond rhai!

Ynghyd â'r cyfle i ennill profiad a chael mwynhau dau ddiwrnod llawn hwyl, cerddoriaeth a mwy, caiff pob gwirfoddolwr docyn bwyd a diod gwerth £10 y dydd i'w wario yn yr amryw stondinau arlwyo a fydd ar gael a chrys-T Tafwyl 2018 i'w gadw.

Am ragor o wybodaeth neu i gofrestru eich diddordeb, ewch i wefan tafwyl.cymru
*Gofynnir i wirfoddolwyr fod o leiaf 18 mlwydd oed.



# Ysgol Glantaf

**Cyrraedd Copa Pen y Fan**
Yn ddiweddar, cerddodd criw o'r chweched dosbarth fynydd Pen y Fan er mwyn codi arian at yr elusen Papyrus. Mae Papyrus yn gweithio'n ddyfal tuag at atal hunanladdiad ymysg pobl ifanc. Er gwaethaf y tywydd oer, llwyddodd yr holl ddisgyblion a'r athrawon i gyrraedd y copa mewn amser da. Rydym yn falch iawn o'n disgyblion am fod mor barod i weithredu ar ran elusen mor bwysig.

**Sgwad 'Sgwennu**
Caiff y Sgwad 'Sgwennu ei threfnu ar y cyd ag Ysgol Plasmawr ac Ysgol Bro Edern. Roedd y gweithdy creadigol y tro hwn wedi'i drefnu yng Nglantaf. Mae'r Sgwad 'Sgwennu yn gyfle gwych i'r disgyblion ddatblygu hyder yn eu sgiliau ysgrifennu ac mewn amryw o ffurfiau. Diolch o galon i'r Athro Christine James am ddod i gynnal sesiwn i'r disgyblion.

**Penwythnos o hwyl a phêl-rwyd**
Braf oedd gweld cynifer o ddisgyblion o flynyddoedd 7 ac 8 yn ein cynrychioli mewn twrnamaint pêl-rwyd yn Liddington yn ddiweddar. Mae'r twrnamaint yn cynnig cyfleoedd gwych i'n merched ddatblygu eu sgiliau pêl-rwyd ond mae'n gyfle hefyd iddynt fwynhau a magu perthnasau newydd drwy amryw o weithgareddau anturus. Diolch i'r adran Addysg Gorfforol am drefnu penwythnos i'w gofio.


Pencampwyr Pêl-droed






**Pencampwyr y Sir**
Newyddion gwych am dîm pêl-droed blwyddyn 10 yr ysgol wrth iddynt hawlio'r teitl 'Pencampwyr y Sir'. Roedd hi'n rownd derfynol gyffrous yn erbyn Ysgol Fitzalan. Y sgôr derfynol oedd 2-1 i Lantaf. Ardderchog!

**Pencampwyr Cenedlaethol**
Llongyfarchiadau i dîm dan 12 a thîm dan 14 yr ysgol am ddod yn Bencampwyr Hoci Cymru yn ddiweddar. Brwydrodd y ddau dîm tan y funud olaf er mwyn cipio teitl y twrnamaint.





# 'Ynof Mae Cymru'n Un'

**Gan**
**Aled Edwards**

Un o nodweddion mwyaf gobeithiol datblygiad addysg Gymraeg y dyddiau hyn yw'r modd y mae'n llwyddo i ddenu a chroesawu disgyblion o sawl lleiafrif ethnig. Bellach ceir ambell ysgol gynradd yng Nghaerdydd lle y mae o ddeutu un o bob pum plentyn yn hanu o'n lleiafrifoedd ethnig. Golyga hyn y ceir mwy nag un cefndir crefyddol yn ein hysgolion Cymraeg hefyd. Oherwydd traddodiad cenedlaethol Cymru a'r hyn sy'n rhesymol yn nhermau'r niferoedd, erys y ffydd Gristnogol yn flaengar mewn agweddau fel addoliad ac ethos ysgol. Ond ceir plant o sawl cred yn mwynhau addysg Gymraeg yn y ddinas.



Er gofid, mewn cymdeithas sy'n teimlo'n llai goddefgar tuag at amrywiaeth, y mae'r datblygiad hwn mewn addysg Gymraeg yn un allweddol bwysig. Bu sawl un ar gyfryngau cymdeithasol yn beirniadu addysg Gymraeg gan honni bod yr iaith yn gyfrwng gwahanu pobl ac aeth ambell un a ddylai wybod yn well i ddisgrifio ysgolion Cymraeg fel rhai sy'n hyrwyddo apartheid. Nid yw hynny'n wir wrth gwrs. Byddai sawl un sy'n astudio mewnfudo rhyngwladol yn dweud bod yr hyn sy'n digwydd ar draws Caerdydd y dyddiau hyn yn cydymffurfio â'r patrwm a welir mewn sawl dinas ar draws y byd. Credir bod o ddeutu 30% o boblogaeth Efrog Newydd yn arddel ieithoedd heblaw Saesneg fel mamiaith. Mae mwyafrif poblogaeth Ewrop yn ddwyieithog.



Yn gyfochrog â'r dynamig ieithyddol cafwyd ymdrechion sylweddol ers dyfodiad datganoli i ddwyn cymunedau ffydd Cymru yn agosach at ei gilydd. Galwodd y diweddar Rhodri Morgan wedi trychineb '9:11' yn Efrog Newydd yn 2001 ar i arweinyddion ddod ynghyd i ffurfio'r hyn sy'n bodoli erbyn hyn fel Fforwm Cymunedau Ffydd Llywodraeth Cymru. Mater rhwydd bellach yw dwyn arweinyddion ffydd at ei gilydd adeg amseroedd o drychineb neu densiwn. Y Pasg hwn daeth nifer o sawl ffydd ac argyhoeddiad yn ardal Hamadryad at ei gilydd yn wyneb llythyrau a anfonwyd i ddynodi 'Diwrnod Cosbi Moslemiaid.' Dyma ardal un o ysgolion cynradd Cymraeg diweddaraf y ddinas: Ysgol Gynradd Gymraeg Hamadryad.

Wedi i ni gyfarch ein gilydd a rhannu cymdeithas fel trigolion y ddinas y diwrnod braf hwnnw wedi'r Pasg a roddwyd drosodd gan rai i gasáu eraill, wna'i byth anghofio un plentyn bach sy'n mwynhau addysg Gymraeg a chred ei deulu fel Moslemiaid yn codi ei law i ffarwelio â phawb gan ddweud 'Hwyl Fawr!' yn llawn hyder. Gobeithiol ddwedwn i!

---

# Merched y Wawr Caerdydd

Ioan Kidd, y nofelydd bywiog a ffraeth o Bantmawr, oedd gwestai'r gangen ar 10 Ebrill. Dywedodd ei fod yn ymwybodol fod darllenwyr brwd ymysg aelodau'r mudiad: yn wir, awdur nofel hanesyddol yw llywydd y gangen, sef Rhiannon Gregory.

Mae Grŵp Darllen y gangen yn cwrdd yn fisol yn Llyfrgell Pen-y-lan. Llyfr y mis hwn yw cyfrol ddiweddaraf Catrin Dafydd, *Gwales*. Yn ystod y misoedd diwethaf bu trafod brwd ar *Yr Eumenides*, *Pant y Wennol*, *60* a *Dŵr yn yr Afon*, ymysg eraill.

Diddorol oedd clywed gan Ioan am ei gefndir a'r modd y mae'n mynd ati i greu sefyllfaoedd a lliwio ei gymeriadau cofiadwy o fewn fframwaith digwyddiadau cyfoes heriol a dadleuol. Mae'n awdur sy'n dwlu ar weld ei gymeriadau'n tyfu dan ei ddwylo. Gymaint ei hoffter ohonynt, anodd ganddo eu gollwng ar ôl cyfnod hir yn eu cwmni. Caiff flas aruthrol yn ymchwilio i gefndir ei waith, sy'n golygu oriau hir o ymlafnio a myfyrio ond mae'n amlwg ddigon fod y nofel orffenedig yn dod â blas mawr iddo ef a'i ddarllenwyr gwerthfawrogol.



Mae Gwasg Gomer wrthi ar hyn o bryd yn paratoi i gyhoeddi ei nofel ddiweddaraf, *Cysgodion Cam*, a fydd yn ein dwylo adeg yr Eisteddfod.

# COFIO CHRISTINE JONES (1945 – 2018)

Teyrnged Eiry Palfrey



***Dr John Idris Jones a Christine Jones yn beirniadu yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Gâr***

Fel 'Chris Fach' roedd pawb yn ei hadnabod ond, os yn fyr o daldra, roedd hon yn gawres ym mhob rhan o'i bywyd. Athrawes ardderchog, cerddor - enillodd amryw o wobrwyon am ganu, ac wrth gwrs fel dawnswraig werin wych.

Chris a'i ffrindiau oedd yn gyfrifol ym 1968 am sefydlu un o grwpiau dawnsio gwerin mwyaf blaenllaw a dylanwadol Cymru: Cwmni Dawns Werin Caerdydd. Esgorodd y cwmni ar nifer o bartïon dawns eraill – Twrch Trwyth, Dawnswyr Nantgarw, Dawnswyr Caernarfon, a bu'n gyfrifol am ledaenu'r ddawns werin Gymreig trwy Gymru, Ewrop a thu hwnt. Bu'r grŵp yn enillwyr eisteddfodol amryw o weithiau dan ddwylo medrus Chris.

Deuthum i adnabod Chris a Rhodri trwy'r ddawns werin. Mae'r gymdeithas ddawns yn deulu clos a chyfeillgar, a deuthum i edmygu a hoffi'r wraig fach annwyl, hwyliog a phenderfynol hon fwyfwy. Roedd gyda Chris a Rhodri stôr o wybodaeth am hanes a chefndir dawnsio gwerin; a'r ddau yn feirniaid dawnsio medrus a phrofiadol.

Yn 2005 cefais wahoddiad i fod yn diwtor yn Welsh Heritage Week (cwrs i Americanwyr sydd am ddysgu am Gymru, ei hiaith a'i thraddodiadau). Bryd hynny, y pennaeth oedd yr annwyl ddiweddar John Albert Evans ac roedd Chris a Rhodri hefyd yn diwtoriaid. Dwi ddim yn meddwl imi erioed chwerthin gymaint ag y gwnes i gyda nhw ar y cyrsiau yma. Roedden ni i gyd yn dysgu'r iaith ac un pwnc arall. Y ddawns werin a chlocsio, wrth gwrs, oedd pynciau Chris ac, yn wir, yn Eisteddfod y Bala 2009 dysgodd Chris grŵp o Americanwyr i gystadlu yn yr ŵyl! Chawson nhw mo'r wobr, ond dyna achub cyfle i roi profiad amrhisiadwy iddyn nhw.

Bydd agendor anferth ar ei hôl – ym mywydau Rhodri a'r teulu, ac ym myd dawnsio gwerin. Ond yn sicr, bydd dawnsio yn y nefoedd o hyn ymlaen!

## I Chris

Clywais heddi
am ffarwel ffrind
Ergyd
er yr argoel

Olion oeddet o'r Aelwyd
trafeiliaist yn Nhreforys
ar lwyfan y festri
ar dy stiletos main,
a'th stepio byth yn stopo.
Cofiaf dy wên barhaus
a'th
lawen gân
yn groeso i gyd

Chris Fach
yn fwndel fechan
tyfaist ar dy sodle
ond,
os nad o't ti'n fawr o't ti'n ddigon.
Pert oeddet mewn parti
dy lefaru mor llwyr.
Dawnsiaist ar lwyfan bywyd
mor ysgafn â'r gwlith ar y blode,
fe'th welaf yn dawnsio eto
yn stiletos dy steil
yn stepio
i simffoni'r sêr.

**Hannah Roberts**

---


CRICC
CAERDYDD

## Rygbi CRICC Caerdydd

**Sesiynau Blasu Rygbi i Ddos. Derbyn a Blwyddyn 1**
**Dydd Sul 10am tan 11am**
**Mai 6, Mehefin 10 ac 17, Gorffennaf 1 ac 8**

Sefydlwyd CRICC yn 1990 er mwyn cynnig hyfforddiant rygbi drwy gyfrwng y Gymraeg. Ers ei sefydlu mae wedi mynd o nerth i nerth a bu'n fan cychwyn i ambell chwaraewr rygbi adnabyddus fel Jamie Roberts a Rhys Patchell. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â rygbi.cricc@gmail.com

# Cwmni'r Dysgwyr

*"Ar 12 Mai, bydd yr Hen Lyfrgell yn gartref i Rownd Gynderfynol Dysgwr y Flwyddyn 2018."*



## Gwilym Dafydd

**Amser Jôc gyda Huw James**

Darllenodd Huw y jôc hon yn noson cwis dysgwyr Merched y Wawr, Cangen Cylch Radur. (Mae adroddiad ar dudalen 17). Huw sy'n eistedd ar y dde yn y llun ar y dudalen hon. 'Roedd fy Wncl Ianto yn dioddef o malaria ar ôl ei gyfnod gwasanaeth yn Malaya yn yr Ail Ryfel Byd. Arferai Anti Blod fynd yn fisol i'r fferyllydd yn Sgwâr Tregaron i gasglu cwinîn iddo. Un tro casglodd hi'r pecyn ac roedd hi'n cerdded lawr y stryd pan glywodd hi rywun yn rhedeg ar ei hôl hi – y fferyllydd. Gofynnodd e, tipyn allan o wynt, "Beth yn union oedd eich presgripsiwn chi?" "Wel," atebodd Anti, "cwinîn." "O'r Nefoedd," dwedodd e. "Dwi wedi rhoi *strycnin* i chi." " Strycnin – cwinîn," atebodd Blod. " Beth yw'r gwahaniaeth?" "Ninepence."'

**Gair gan Nannon Evans, Swyddog Hyrwyddo'r Gymraeg, Eisteddfod Genedlaethol Cymru**

Ar 12 Mai, bydd yr Hen Lyfrgell yn gartref i Rownd Gynderfynol Dysgwr y Flwyddyn 2018. Eleni bydd 25 o ymgeiswyr yn cystadlu i gipio'r wobr felly bydd gan ein beirniaid benderfyniad anodd iawn i'w wneud. Lowri Bunford Jones, Carole Bradley ac Ian Gwyn Hughes fydd yn penderfynu ar y pedwar fydd yn mynd ymlaen at y rownd derfynol, sy'n cael ei chynnal yn 'Y Dosbarth' yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro. Bydd criw Boom yn ymuno gyda ni i ffilmio pob cam o'r ffordd, felly cadwch lygaid allan am y rhaglen 'Dal Ati' ar S4C am newyddion diweddara y gystadleuaeth gyffrous yma!

**Geirfa Garddio**

Cawson ni sgwrs fach am arddio yng nghoffi a chlonc amser cinio 1-2 yn Llaeth a Siwgr, yr Hen Lyfrgell y pnawn Llun o'r blaen. (Rydyn ni hefyd yn cyfarfod 1-2 pnawn Gwener.) Soniais wedyn am hyn ar neges Trydar. Dyna pryd ces i neges gan Geirfa Garddio @GeirfaGarddio yn holi beth oedd cynnwys ein sgwrs. Mae'r tywydd yn gwella(!) a byddwn yn treulio mwy o amser yn ein gerddi, os ydyn ni'n ddigon ffodus i gael gardd neu gerddi. Mae nifer o ddysgwyr ar Trydar felly beth am droi at Geirfa Garddio oherwydd yma ceir gwahoddiad i ddathlu garddio trwy'r Gymraeg. Defnyddiwch #geirfagarddio i gymryd rhan. Mae croeso i ddysgwyr a Gair yr Wythnos a mwy. Mae 189 ohonom yn dilyn Geirfa Garddio. Beth am sicrhau 200 cyn cyhoeddi Dinesydd mis Mehefin?

**Yr Awr Hapus, Gwesty Coryton, boreau Llun, 10.45 wedi casglu £150**

Do wir, 'dyn ni wedi casglu'n fisol ers mis Medi ac wedi llwyddo i gyrraedd £150. Bydd £130 ar gyfer 3 gwobr yng nghategori cystadleuthau dysgwyr yn Eisteddfod y Bae ym mis Awst ac os bydd teilyngdod yn y gystadleuaeth unawd i Ferched 12-16 oed, dysgwyr Yr Awr Hapus fydd wedi talu £20 i'r ferch ddaw yn drydydd! Mae sawl copi o'r *Dinesydd* yn cael eu gwerthu i ddysgwyr brwdfrydig ar foreau Llun ers sawl mis bellach. Mwynhewch yr arlwy a diolch yn fawr am eich cefnogaeth – ac mewn cylchoedd coffi a chlonc eraill megis yn Llaeth a Siwgr.

**Llyfrau Newydd**

Glywoch chi am gyhoeddiad Cyngor Llyfrau Cymru, y bydd cyfres newydd, gyffrous o lyfrau darllen ar gyfer dysgwyr sef Cyfres Amdani ar gael cyn bo hir? Maen nhw wedi eu graddoli ar bedair lefel sef Mynediad, Sylfaen, Canolradd ac Uwch. Wrth gyhoeddi chwe llyfr cyntaf y gyfres, meddai Helgard Krause, Prif Weithredwr y Cyngor Llyfrau, "Mae'r Cyngor yn croesawu'r gyfres yma'n fawr, ac rydym yn hynod falch o gyflwyno'r llyfrau newydd yma i ddysgwyr Cymraeg. Bydd modd i ddysgwyr cyfredol, pobl sydd eisiau ailgydio yn y dysgu, neu bobl sydd ddim yn rhugl ond yn llai hyderus wrth ddarllen, droi at y llyfrau hyn am stori dda. Fel dysgwr fy hun, edrychaf ymlaen yn fawr at eu darllen."

**Cyfri'r tabledi**

Yn ystod blwyddyn ola bywyd fy nhad, a fu farw bythefnos cyn Nadolig llynedd, roedd e a fi yn llyncu yr un math o dabledi dŵr yn ddyddiol! Roedd e'n derbyn gwerth 56 a fi'n derbyn 28 tabled. Gadawodd e 49/56 tabled i fi yn ei 'ewyllys'! Y mis o'r blaen digwyddais eu cyfrif gan fy mod i ffwrdd am wythnos o wyliau a sylwi taw dim ond 18/28 oedd yn y bocs. Cynhaliwyd ymchwiliad yn y fferyllfa pan soniais am 10 tabled ar goll pan ddychwelais i dderbyn 28 am bedair wythnos arall. Dywedon nhw eu bod yn cyfri'r tabledi yn ofalus iawn. Yna nôl yn y tŷ pan agorais focs newydd o'r tabledi, sawl tabled chi'n credu oedd ynddo? 30 ac nid 28! Mae hon yn stori wir a dydw i ddim am enwi'r fferyllfa!

**Diweddglo**

Dyna ni am y tro. Croeso i ddysgwyr eraill heblaw Huw James anfon jôcs ymlaen! eirianagwilym@gmail.com



*Huw James yw'r gŵr ar y dde yn y llun*

# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## EGLWYS EBENESER

**Cracio'r Pasg**

Cynhaliwyd 'cracio'r Pasg' ar gyfer ysgolion Cymraeg gan ein gweithiwr plant, Adam Coleman, ar 20 Mawrth yng nghapel Highfields. Daeth disgyblion o Ysgol Mynydd Bychan yno gyda Vikki Tudur er mwyn cael sesiynau difyr oedd yn cyflwyno hanes y Pasg i'r disgyblion. Roedd nifer o aelodau Ebeneser yn helpu gan gynnwys Dyfan Graves a wnaeth gyflwyniad dramatig i'r plant fel Jwdas. Diolch i Adam am drefnu digwyddiad rhagorol.

**Cydymdeimlwn â...**

...Wyn a Nora Davies, Hywel ac Aled. Bu farw tad Nora ddiwedd mis Mawrth wedi cyfnod hir o salwch.

**Pen-blwydd Hapus i...**


...Alun Tudur ar ddathlu 23 mlynedd fel gweinidog arnom yn Ebeneser ar 1 Ebrill. Diolch i Dduw am ei waith a'i wasanaeth diflino, ei arweiniad a'i bregethu grymus. A diolch iddo am y jôcs a'r chwerthin!

**Llongyfarchiadau...**

...i Dyfan Graves a Jemma Fitzsimmons ar eu dyweddïad yn ystod mis Mawrth.

**Dathlu'r 50!**

Llongyfarchion twymgalon i Alwyn ac Elizabeth Williams ac Elwyn ac Annick Moseley ar ddathlu hanner can mlynedd o briodas yn ystod mis Ebrill. Mae'n arbennig iawn gweld dau gwpwl yn cyrraedd y garreg filltir arbennig hon a hwythau'n aelodau mewn un eglwys. Bu Alwyn ac Elizabeth yn dathlu gydag ymweliad â theulu yn Seland Newydd tra bu Elwyn ac Annick gyda theulu yn Yr Eidal. Ymlaen i'r 60! ddwedwn i!



*Alwyn ac Eliizabeth*



*Elwyn ac Annick*

**Bowlio 10**

Aeth criw da ohonom i fwynhau awr o gystadlu brwd ar y lonydd bowlio 10 ym Mharc Nantgarw nos Fawrth, 17 Ebrill. Alice Jeffs oedd yn bencampwraig.

**Teithio**

Pob dymuniad da i Gwilym ac Alice Jeffs sy'n mynd i deithio'r byd am gyfnod o 4 mis.

**Lansio**

Llongyfarchiadau i Luned Aaron wrth iddi gyhoeddi ei llyfr plant diweddaraf sef *Lliwiau* yng Ngŵyl Lên Plant, Caerdydd.

## TABERNACL, YR AIS

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Gruff a Meleri Beynon Davies ar enedigaeth eu merch gyntaf sef Mari Alys. Fe briodon nhw yn y Tabernacl llynedd, ac mae'r ddau yn edrych ymlaen at ddod â Mari i'r Ysgol Sul.

**Dyweddïad**

Ddiwedd mis Mawrth clywsom am ddyweddïad Iwan Jones a Gosia Drozdowska sy'n byw ar hyn o bryd ym Mryste. Llongyfarchwn nhw yn llawen a dymuno'n dda iddynt gyda'u trefniadau.

**Y Chwiorydd**

Mwynhawyd sawl oedfa a gweithgarwch yn ystod y mis, a digwyddodd nifer o weithgareddau ar ôl y Pasg, yn arbennig gyda'r gwaith crefft. Gwerthwyd llawer o'r cywion Pasg ac mae'r prosiectau codi arian at y tri achos byddant yn eu cefnogi eleni yn hawlio cefnogaeth.

**Cymdeithas nos Fawrth**

Daeth gweithgaredd y flwyddyn i ben yn y cyfarfod blynyddol a gafodd ei gynnal ar aelwyd Ruth a Bill Davies. Cyflwynwyd adroddiad ariannol cadarnhaol gan Huw Jones ac Angharad Watkins a chrynodeb o gyfarfodydd y flwyddyn gan Rhodri ab Owen, yr ysgrifennydd. Cadarnhawyd mai Ruth Davies fydd y cadeirydd newydd, gyda Siân Dowling yn ei chefnogi fel is-gadeirydd. Diolchwyd i'r pwyllgor am eu gwaith ac yn arbennig i'r cadeirydd Calan McGreevy.

**Taith i'r Arctig**

Llongyfarchwn Llinos Metcalf ar ei gorchest rhyfeddol o gerdded y milltiroedd helaeth yn ei hesgidiau eira, a chario'r cyfan roedd ei angen arni wrth gwblhau'r daith. Roedd wedi blino'n llwyr, ond yn diolch am y profiadau a gafodd. Dymuna Llinos ddiolch i bawb a ddangosodd bob cefnogaeth iddi wrth baratoi ar gyfer y cerdded, ac am gyfrannu i'r achos yn Ysbyty Felindre.

**Bore Coffi Mercher.**

Diolch i Jean Evans am groesawu'r selogion i'w haelwyd cyn y Pasg. Roedd y cyfarfod nesaf ar aelwyd un o'n haelodau diweddar, Gweneth Jones sy'n byw yn ardal Treganna. Roedd y croeso mor gynnes ag arfer.

## BETHEL, RHIWBEINA

Yn ystod y mis, cawsom wasanaethau bendithiol dan arweiniad Mrs Helen Jones, Mr Mansel Jones, Mr Gwyndaf Roberts a'n gweinidog, y Parch. Evan Morgan.

Llongyfarchiadau i Rhys Mathews, aelod o'r ysgol Sul, ar ei lwyddiant mewn cystadleuaeth siarad cyhoeddus drwy gyfrwng y Saesneg, a drefnir yn flynyddol gan Glwb Rotari Llanisien. Mae e'n ddisgybl blwyddyn 6 yn Ysgol y Wern ac ym mis Medi bydd yn mynychu Ysgol Glantaf.

Croeso nôl i'n plith i Mr Arfon Roberts ar ôl iddo dreulio cyfnod ar aelwyd ei ferch yn Lloegr.

Pob dymuniad da i Mrs Maisie Nash wrth iddi ddathlu pen-blwydd arbennig iawn.

Ar fore Mawrth, Ebrill 24 aeth criw bach ohonom am dro o gwmpas Parc Bute i fwynhau blodau'r gwanwyn gan lwyddo i gyrraedd Caffi Pettigrew cyn i'r glaw trwm ddisgyn.

Cydymdeimlir â Mrs Delyth Dunsford, Pont-iets, a'i mab Llŷr sy'n gyn-aelodau ym Methel, ar golli Mel, gŵr Delyth, ar Ebrill 16. Roedd Mel yn frodor o'r Rhondda ac yn hoff iawn o dyfu blodau. Roedd yn aelod selog o'r clwb 'chrysanths a dahlias' tra roedd yn byw yn Rhiwbeina. Roedd Delyth yn athrawes yn Ysgol y Wern a Llŷr yn gyn-ddisgybl yn Ysgol Glantaf.

Cynhelir Oedfa o Fawl flynyddol yng nghapel Bethel eleni ar brynhawn Sul, Mai 13 am dri o'r gloch. Croeso cynnes i bawb i'r oedfa hon.

Ar fore Mawrth, Mai 15 cynhelir Bore Coffi yn y capel o 10.30 tan 12.30 Bydd pob elw yn mynd at yr elusen Cymorth Cristnogol.

## BETHEL, PENARTH

Cawsom y pleser ar Sul olaf Mawrth, Sul y Blodau, o groesawu am y tro cyntaf Mr Ion Thomas. Diolchwn iddo am osod sylfaen gadarn i fyfyrdodau'r Wythnos Fawr. Yn ôl arfer, erbyn hyn, buom yn nodi Nos Iau Cablyd wrth gynnal oedfa gymun, dan ofal ein gweinidog, y ddefod o dorri'r bara yn ddwysach wrth i ni basio torth o un i'r nesaf gael tynnu darn ein hun.

Nodwyd Gwener y Groglith mewn oedfa ofalaeth pan ddaeth cyfeillion y Barri atom. Bu hon yn achlysur i'w gofio oherwydd roedd ein gweinidog, yn ddeheuig a dychmygus, wedi gosod blodau, planhigion a phethau eraill mewn arddangosiad o un pen y capel ar hyd y llawr i'r pen arall, gyda phob elfen yn y gyfres yn cynrychioli digwyddiadau'r Wythnos Fawr, o Jerwsalem i'r Groes. Gweler y llun.

Cawsom wasanaeth o lawenhau Sul y Pasg gyda'n gilydd yn Y Tabernacl, Y Barri. Yno cawsom y newyddion bod Siân Meinir yn dathlu buddugoliaeth eisteddfodol mewn cystadleuaeth farddoni. Llongyfarchion hael iddi.

Cyfle i drafod a rhannu gafwyd yn yr Ysgol Sul i bawb ar Ebrill y 15fed. Ymhlith y pynciau roedd rhannu ariannol, yn seiliedig ar hanes y weddw a'i dwy hatling fel y mae yn Marc 12, 41-44. Rhoddwyd sylw i emyn 841 (Rhys Nicholas) gyda'r deisyfiad i fod yn 'gyson-hael'.

Chwalwyd ein trefniadau ar gyfer nodi Dydd Gŵyl Dewi ar Fawrth 4ydd gan yr eira mawr. Gyda dyfod tywydd gwell adferwyd y dathlu ar y 22ain o Ebrill gyda'r thema: Y Gymraeg, Ein Hetifeddiaeth. Cafwyd cyfraniadau amrywiol gan sawl aelod, gyda'r cyfan yn cyrraedd penllanw mewn anerchiad ysbrydoledig gan Mr Cynog Dafis, a soniodd am y mudiad Dyfodol. Dosbarthwyd deunydd perthnasol i'r achlysur.



*Bethel Penarth*

## EGLWYS DEWI SANT

**Dydd Iau Dyrchafael**

Cynhelir y Cymun Bendigaid am 10.30 yn yr eglwys ddydd Iau, 10fed o Fai.

**Datganiad Organ**

Bydd datganiad organ gan Elin Rees o Bury, Manceinion am 1.15 ddydd Gwener, 18fed o Fai.

**Coffi a Chlonc**

Daeth criw brwd o ddysgwyr draw am baned i'r Coffi a Chlonc ym mis Ebrill. Cynhelir yr un nesa ddydd Sadwrn, Mai 19eg yn neuadd yr eglwys rhwng 10.30-12. Mae croeso cynnes i unrhyw un sy'n dysgu Cymraeg daro mewn.

**Clwb Cerdded**

Dydd Iau, Ebrill 19eg aeth tua 10 ar wâc i ymweld ag eglwys St Illtud yn Llanilltud Fawr. Cafwyd croeso cynnes a phaned yno cyn sgwrs ddiddorol am hanes yr eglwys a'r Croesau Celtaidd yng nghapel Galilea. Yna aethpwyd am dro drwy'r caeau lawr at lan y môr ac yn ôl i'r pentre am ginio haeddiannol. Bydd y wâc nesa am 10.30 ddydd Gwener, Mai 25ain o amgylch y Morglawdd ym Mae Caerdydd.

**Y Gymdeithas**

Dydd Iau, 26ain o Ebrill aeth 13 i ymweld â chartref Joseph Parry ac Amgueddfa Cyfarthfa ym Merthyr Tudful. Ar ôl diwrnod bendigedig, cafwyd swper ym Mhentre Bach House ar y ffordd adre. Ym mis Mai, bydd y Gymdeithas yn cael taith o amgylch mynwent Cathays.

**Priodas**

Dymunir pob dymuniad da ar eu bywyd priodasol i Ceri Mears a Nicolas Edwards yn dilyn eu priodas yn yr eglwys ddydd Sadwrn, 14eg o Ebrill.

## SALEM, TREGANNA

**Adran yr Urdd**

Dymunwn yn dda i Adran yr Urdd Salem a fydd yn perfformio yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanelwedd, wrth iddynt gystadlu ar y Parti Unsain a'r Parti Llefaru ddiwedd y mis. Ewch amdani!

**Priodas**

Llongyfarchiadau i Lowri Griffith a Neil Binell a briododd yn Salem yn ddiweddar. Pob dymuniad da i'r ddau ohonoch!

**Cynllun y Di-gartref**

Ar ôl 15 wythnos, mae project y di-gartref wedi dod i ben am eleni. Rhoddwyd lloches i bron i 200 o bobl dros wythnosau oeraf y gaeaf. Hoffem ddiolch o galon i bawb a fu'n ymwneud â'r cynllun, yn gwirfoddoli drwy goginio, gweini, helpu a chyfrannu mewn amrywiol ffyrdd. Cyflawnwyd gwaith tîm penigamp. Diolch yn fawr iawn.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn yn fawr â sawl aelod a ffrind sydd wedi colli rhai annwyl yn ddiweddar. Cydymdeimlwn â Rhian Thomas sydd wedi colli ei mam, a hefyd Mererid Jenkins sydd wedi colli ei thad. Meddyliwn hefyd am Mike Morris sydd wedi colli ei fam, a Gwenda Jones sydd wedi colli ei brawd. Rydym yn meddwl yn fawr amdanoch a'ch teuluoedd ar hyn o bryd.

**Clwb y Bobl Ifanc**

Bu'r clwb yn brysur yn dringo yn Boulders ddiwedd Ebrill, yn anelu at yr entrychion!

**Llywydd y Sasiwn**

Hoffem longyfarch Gweinidog yr Eglwys, y Parch. Evan Morgan yn wresog ar gael ei ethol yn Llywydd Sasiwn y De ac a fydd yn cael ei arwisgo ar 2 Mai yn Sir Benfro. Dymunwn yn dda iawn iddo ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod gyda'r gwaith arbennig hwn.

## EGLWYS Y CRWYS

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau cynnes i Iwan Gruffydd ar gael ei benodi yn Bennaeth Adran Ffiseg Ysgol Gyfun Gymraeg Gwynllyw. Pob dymuniad da i ti, Iwan.

**Cydymdeimlo**

Estynnwn ein cydymdeimlad â Mrs Mari Herbert a'r teulu yn ei phrofedigaeth o golli ei mam, Mrs Mary Rosser, Treforys. Rydym yn meddwl amdanynt yn eu colled.

**Cyfarchion**

Mae amryw o'n haelodau wedi treulio peth amser mewn ysbytai yn ddiweddar. Mae Gerald Latter a Robin Griffith gartref erbyn hyn wedi triniaeth a dymunwn yn dda iddynt.
Mae Mrs Margaret Cox yn Ysbyty Dewi Sant wedi cyfnod yn Ysbyty'r Brifysgol.

Dymunwn yn dda i'r Athro Meic Stephens sydd yn Ysbyty'r Brifysgol. Mae ef a'r teulu yn ein meddyliau ar hyn o bryd.

Da gweld yr Athro John Gwynfor Jones gartref o'r ysbyty wedi triniaeth go fawr. Rydym yn edrych ymlaen at ei weld yn ôl yn ein plith yn fuan.

**Y Grŵp Merched**

'Brethyn Cartref' oedd thema'r cyfarfod ym mis Ebrill a chafwyd prynhawn hwyliog dros ben. Cymerwyd rhan gan Eleri Bines oedd yn sôn am ei hen daid oedd wedi dod o Geredigion i Ferthyr Tudful lle bu'n flaenor yng Nghapel Pont Morlais. Roedd Eleri wedi dod â thrywel gyda'i enw arno a gafodd ei gyflwyno iddo gan yr Eglwys am ei wasanaeth. Cafwyd gan y Dr Margaret Roberts gofnodion difyr o'i hanes a dangosodd Catherine Jobbins grys lliwgar a brynodd i'w gŵr Alan yn Luxor, yr Aifft. Diolch iddynt am eu cyfraniadau amrywiol.

**Y Gymdeithas**

Pleser oedd cael croesawu y Parch Gwyn Elfyn i annerch y Gymdeithas. Cafwyd noswaith hynod o ddifyr yn ei gwmni yn sôn am ei fywyd oedd yn cynnwys ei hoff lyfrau a'i arwyr; ei gyfnod fel actor ym 'Mhobol y Cwm' cyn mynd i'r Weinidogaeth ac yn gorffen gyda her rymus i'r Eglwys wrth wynebu'r dyfodol.

**Croeso**

Mae'r Crwys yn falch iawn bob amser i groesawu ymwelwyr i gyd-addoli â ni. Yn ystod mis Mehefin, y Gweinidog fydd yn gwasanaethu ar y 3ydd; y Parch Glyn Tudwal Jones ar y 10fed; y Parch Gwyn Rhydderch ar y 17eg a'r Parch Robert Owen Griffiths ar y 24ain.

## EGLWYS MINNY STREET

www.minnystreet.org @MinnyStreet

**Estynnwn** groeso i bawb, 'o'r ieuengaf i'r hynaf', i'n cyfarfodydd ar y Sul (10.30 a 18.00) ac yn ystod yr wythnos. Bydd Oedfa i'r Teulu fore Sul Mai 6ed a Chymundeb yn yr hwyr dan arweiniad ein Gweinidog, y Parchg Owain Llŷr Evans. Yn dilyn Oedfa'r bore bydd Cinio'r Elusen er budd Cymorth Cristnogol, Masnach Deg a'r Banc Bwyd. Cawn arweiniad ein Gweinidog a Chyfeillion yn yr Oedfa Foreol Gynnar am 9.30, Mai 13eg. Yn yr hwyr byddwn yn ymuno yng Ngŵyl Bregethu Eglwys y Crwys. Mai 20fed bydd yr oedfaon yn ôl ein harfer gyda Chymundeb yn yr hwyr. Bydd oedfaon Mai 27ain dan arweiniad Y Parchedig Eirian Wyn (Treforys). Cynhelir Ysgol Sul Mai 20fed a'r 27ain.

Mai 7fed a'r 21ain bydd **PIMS** yn cwrdd rhwng 19.00 a 20.30 a **Babimini** 9.45 - 11.15 Mai 4ydd a'r 18fed.

Ymunwch â'r oedolion yn **Bethania** 19.30 Mai 1af a'r 15fed. Yn **Llynyddwch** am 10.00 Mai 25ain cawn drafodaeth yng nghaffi Terra Nova, Parc y Rhath. Cofiwch archebu ymlaen llaw i fwynhau **Koinônia** am 12.00 Mai 9fed a 19.30 Mai 20fed.

**Cydymdeimlo:** Cofiwn yn annwyl a diolchgar am dri aelod fu farw dros y cyfnod aeth heibio sef Mrs Gwenda Preece (Yr Eglwys Newydd), Yr Athro Geraint Roberts (Parc y Rhath) a Mrs Beti Jones (Llandaf). Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â'r tri theulu.

**Bedydd**: Hyfrydwch fu tystio i fedydd Greta Marged Wyn, merch Angharad ac Ieuan yn yr oedfa foreol, Ebrill 8fed.

**Eisteddfod Genedlaethol 2018**
Llongyfarchwn Dr Hefin Jones a fydd yn derbyn Medal Wyddoniaeth a Thechnoleg yr Eisteddfod am ei gyfraniad i wyddoniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a Llŷr Gwyn Lewis am gael ei wahodd i fod yn Fardd y Lle Celf ac felly ef fydd yn ymateb i'r gwaith celf yn yr Arddangosfa Agored yn yr Eisteddfod.

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

**Gwyliau'r Capel**

Unwaith eto eleni, yn ystod gwyliau'r Pasg, aeth aelodau, teuluoedd a ffrindiau'r eglwys i Fryn-y-groes yn y Bala. Mae hyn yn gyfnod i'w drysori i lawer ohonom. Mae'n gyfle i ni fod gyda'n gilydd fel teulu'r ffydd (yn hen, yn ganol oed, yn rhieni ac yn blant) i ddod i nabod ein gilydd mewn awyrgylch anffurfiol, i rannu profiad ysbrydol, i weld y plant yn mwynhau cwmni ei gilydd, yn ogystal â chlywed gair Duw. Ac yn bwysig iawn hefyd, mae'n golygu cael cwmni Gwydion a Catrin, sydd wedi taflu eu hunain i mewn i'r gwaith ymarferol o fod yn wardeniaid Bryn-y-groes. Doedd eleni eto ddim yn siom.

Yn y boreau, cawsom gyfnodau o astudio a thrafod hanes yr atgyfodiad, o safbwynt y disgyblion a'r gwragedd. Gwelsom sut mae hyn yn berthnasol i ni yn ein bywydau heddiw. Gyda'r nos, roedd epilogau yn ein harwain i feddwl am ein perthynas â Duw. A rhwng y ddau, roedd amser i weithgareddau amrywiol yn addas i'n hoed a'n hoffter.

Diolch i bawb a drefnodd y gwyliau, mae'n waith enfawr i geisio ein plesio i gyd. Diolch hefyd i Gwydion a Catrin am y croeso ac am y cariad sydd ganddynt at bobl a gwaith Duw.

**Paned a Sgwrs**

Yn ddiweddar, daeth Bethan Jenkins atom i sôn am ei thaith ysbrydol ei hun ac am y gwahanol waith mae hi yn ei wneud yn ardal Merthyr Tudful.

Soniodd Bethan am sut y daeth i ffydd bersonol yn Iesu Grist yn ystod ei chyfnod yn y brifysgol yn Aberystwyth ac mae'r ffydd yna wedi'i hysgogi i ymroi i wahanol anghenion cymdeithasol.

Mae Bethan yn un o fugeiliaid y stryd ym Merthyr ac yn cynorthwyo gyda'r banc bwyd yno. Mae hi hefyd yn gaplan cynorthwyol yn yr ysbyty gan ymweld yn benodol â chleifion sy'n dioddef o dementia.

Roedd yn her i glywed am yr holl waith ymarferol yma sy'n ceisio cwrdd â rhai o'r anghenion sydd yn ein cymdeithas.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn â Rhodri Jones ar farwolaeth ei dad-cu yn Sir Benfro, a chofiwn am y teulu i gyd.

# Bwytai Merch y Ddinas

*"Does ond un peth amdani, cynnig syniad am lyfr 'Tafarndai Bwyd Cymru'."*



**Lowri Haf Cooke**

**Y Llew Coch, Pendeulwyn**

Tra'n teithio ledled y wlad ar hyn o bryd ar gyfer fy llyfr nesaf, *Bwytai Cymru*, ceir elfen fechan iawn o rwystredigaeth. Gallwn yn hawdd gynnwys cannoedd o dafarndai bwyd y mae Cymru yn arbenigo ynddynt. Yn wir, yn aml ar benwythnos, codir y cynnig o fynd am dro, yna'r awch i goroni'r achlysur ag ymweliad â thafarn wledig. Am resymau ymarferol, pan fydd amser yn brin, rhaid canfod llecyn nid nepell o'r ddinas.



Mae nifer o enghreifftiau 'lleol' yn neidio i'r meddwl, o'r Bunch of Grapes ym Mhontypridd, y Maenllwyd yn Rhydri, a'r Fox & Hounds Llancarfan. Yn ddiweddar, cefais flas ar arlwy'r Brynffynnon yn Llanwynno, nid nepell o fedd Guto Nyth Brân. Nawr dyna chi redwr a hanner oedd wir yn haeddu gwledd – trueni mawr iddo syrthio'n gelain 'rôl ennill ei ras. Ond mae 'na wastad dynfa i ganfod hafan arall, a dro yn ôl ces i swper gyda ffrindiau yn Y Llew Coch ym Mhendeulwyn.




Er yn newydd i mi, bu'r cyn-ffermdy hwn yn dafarn ers dwy ganrif ym Mro Morgannwg. Fe'i lleolir ger gwinllan Llannerch yn Hensol, felly mae'n gyfleus i drafford yr M4. Yr hyn sy'n denu i ddechrau yw'r waliau cochion traddodiadol, a cheir awyrgylch hynod braf o flaen y tân. Ar y fwydlen, mae hanfodion 'bwyd tafarn' cyfoes fel sgod a sglods a byrger mewn bynsen *brioche*. Ond ceir hefyd arwyddion o uchelgais pellach ar waith wrth gynnig blasau Bro Morgannwg ar blât.



Wyau fferm Caergwynaf Uchaf o Feisgyn a weinir ar gyfer y cyrsiau cyntaf tymhorol, fel y merllys (asbaragws) newydd sbon o Ddyffryn Gwy. Darniwyd hefyd gig hwyaden a'i ffrio ar ffurf 'hash', wnaeth weddu i'r dim â blas cyfoethog 'Mand's Miskin Eggs'. Rwy'n bendant am ddychwelyd yn nes at yr haf i brofi mêl lleol Pendeulwyn, gaiff ei weini â phaill gwenyn a phwdin reis.

Mark Edwards o Benparcau sy'n gyfrifol yn y gegin, a'i bartner, Carmella o Lantriddyd, sy'n llywio'r bwyty a'r bar. Yn ogystal â chenhadu dros gynnyrch y Fro, ceir dathliad hefyd o'r gorau o Gymru. Daw'r cig oen gan Douglas Willis – cigydd Cwmbrân - a'r bara surdoes gan Alex Gooch o'r Gelli Gandryll. Mae'r cig eidion yn seren amlwg ar y fwydlen bwrdd du, ac wedi'i sychu am 70 diwrnod gan Chris Rogers, cigydd Caerfyrddin. Yr un cigydd sy'n cyflenwi'r holl gig moch ac mae'r *fritters* pwdin gwaed yn dra phoblogaidd. Ond peidiwch, da chi, â gwneud yr un camgymeriad â mi ac archebu'r 'tameidiau' (anferthol) hynny ar y cyd â thri chwrs... mae meintiau'r platiau'n hael, a dweud y lleiaf.

Cyflwnwyd y pwdinau yn slic, a hynny mewn cryn steil, i gystadlu â sawl bwyty chwaethus. Y *delice* siocled aeth â hi, rhwng y tair ohonom ni; saig ysgafn braf wedi gwledd o flasau cyfoethog. Mae'r safon yn andros o uchel, fel cynifer o dafarndai bwyd Cymreig. Ni fu'n syndod cael deall mai 'mecca' bwyd Mark a Carmella yw'r Griffin yn Felinfach; gyda'i soffas lledr melyn sydd yn toddi oddi tanoch fel menyn, a bwydlen 'dafarn' gyda'r gorau yn y byd. Does ond un peth amdani, cynnig syniad am lyfr 'Tafarndai Bwyd Cymru'. Hmmm, tybed pwy ddaw i ymuno â'r daith honno â mi?

**Y Llew Coch, Pendeulwyn, Y Bont-faen, Bro Morgannwg CF71 7UJ; 01446 760690**

***Canllaw Bach Caerdydd* gan Lowri Haf Cooke (Gwasg Gomer), £9.99**

## Elusennau a leolir yng Nghaerdydd yn derbyn grantiau gan Hanfod Cymru

Mae Cymdeithas Eisteddfodau Cymru a Leonard Cheshire Disability ymhlith yr elusennau fu'n llwyddiannus yn y drydedd rownd o grantiau bach Hanfod Cymru - yr elusen sy'n dosbarthu'r arian a godir at achosion da gan Loteri Cymru. Mi fydd Leonard Cheshire Disability yn defnyddio'r grant i gynnal eu cystadleuaeth ddawns Strictly Cymru i 75 o bobl anabl ar draws Cymru. Bydd grant Cymdeithas Eisteddfodau Cymru yn mynd tuag at y gost o gynnal a rhedeg prosiect Ffatri Llais y gymdeithas. Nod y prosiect yw cynnal gweithdai llais i gantorion ledled Cymru er mwyn iddyn nhw ddatblygu eu sgiliau.

Dywedodd Siôn Brynach, Prif Weithredwr Hanfod Cymru:
*"Roedd aelodau bwrdd Hanfod Cymru wedi eu synnu gan safon a nifer y ceisiadau a ddaeth i law yn y drydedd rownd o geisiadau am grantiau bach, ac yn falch tu hwnt o fod wedi derbyn ceisiadau o bob rhan o Gymru. Yn wir roedd nifer y ceisiadau a ddaeth i law 20% yn uwch na'r rowndiau ceisiadau blaenorol. "Gwnaeth Leonard Cheshire Disability a Cymdeithas Eisteddfodau Cymru yn wych felly i ddarbwyllo'r bwrdd y dylid cefnogi eu ceisiadau am arian tuag at ehangu gweithgarwch celfyddydol eu helusennau"*

Mae lleiafswm o 20% o'r elw o gyfanswm gwerthiant tocynnau Loteri Cymru yn cael ei gyfeirio at achosion da yng Nghymru trwy Hanfod Cymru. Gan bod Loteri Cymru bellach wedi rhoi'r gorau i weithredu bydd gwaith Hanfod Cymru hefyd yn dod i ben yn ystod haf 2019, gyda staff yr elusen yn cael eu diswyddo ddiwedd Mai eleni.

I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am waith Hanfod Cymru neu i weld sut mae grantiau wedi gwneud gwahaniaeth i'r elusennau a ariannwyd, ewch at www.hanfodcymru.wales

## PROCESSIONS Caerdydd

Disgwylir i fenywod o bob cwr o'r wlad ymgasglu yn y brifddinas ddydd Sul, Mehefin 10 i gymryd rhan mewn 'portread byw' i ddathlu 100 mlynedd ers rhoi'r bleidlais i fenywod gwledydd Prydain. Bydd y rheini sy'n dod ynghyd yn cerdded trwy strydoedd Caerdydd gan wisgo gwyrdd, gwyn neu borffor, sef lliwiau'r mudiad swffragét, a phledio'r achos "Rhowch Bleidlais i Fenywod". Ar yr un pryd, cynhelir digwyddiadau tebyg yn y tair prifddinas arall hefyd.

Yn ôl y trefnwyr, gwaith celf unwaith-mewn-oes fydd hwn, gwaith a fydd yn dathlu moment hanesyddol ym maes cydraddoldeb rhwng y rhywiau, gan greu portread dramatig o ferched yn y ganrif hon. Bydd baneri a grëwyd yn arbennig yn ganolog i orymdaith Caerdydd. Gwahoddir menywod a merched, gan gynnwys y sawl sy'n eu diffinio'u hunain yn fenywod neu'n unigolion anneuaidd, i fynd at www.processions.co.uk i gofrestru. Maen nhw'n cael eu hannog hefyd i ymuno â gweithdy i lunio baneri neu i greu baner gartref gan ddefnyddio pecyn adnoddau pwrpasol.



Artichoke sy'n cynhyrchu PROCESSIONS ac mae'r gwaith wedi'i gomisiynu gan 14-18 NOW. Bydd PROCESSIONS Caerdydd yn rhan o Ŵyl y Llais eleni, gŵyl gelfyddydau ryngwladol a gynhelir bob dwy flynedd yng Nghanolfan y Mileniwm.


Angen **glanhäwr dibynadwy** i lanhau eich cartref am **bris rhesymol**?

***TIME FOR YOU CAERDYDD***

- Glanhawyr wedi eu gwirio yn eu cartrefi eu hunain
- Ymgynghoriad a chefnogaeth ar gael yn Gymraeg
- Cwmni sy'n gwasanaethu Caerdydd ers 2003

Owen Saer (Perchennog y Busnes)

**029 2029 1764**
**cardiff@timeforyou.co.uk**
www.timeforyou.cleaning



menter caerdydd

**CLWB UKULELE, TAFWYL**

**6-11 OED | Nos Wener**
**Hyb STAR, Tremorfa. CF24 2SJ.**
**Wyt ti am ymuno â ni i berfformio yn Tafwyl 2018?**

**Clwb 9 wythnos, dechrau nos Wener 04/05/18**
Clwb Ukulele newydd dan arweiniad Mei Gwynedd, yn arwain at y perfformiad mawr yn Yurt-T Tafwyl! Addas i gerddorion o bob gallu, a cyfle gwych i ddysgu rhywbeth newydd - dewch yn barod i ganu ac i joio!
**Sesiwn 1: 16:30-17:30**
**Sesiwn 2: 17:30-18:30**

MWY O WYBODAETH / COFRESTR AR-LEIN.
**Mae offerynnau ar gael i'w benthyg,os oes angen*



# Colofn Ashok

Dyma ni, mae'r jig-so cymhleth wedi ei gwblhau. Ar ôl misoedd o drafodaethau, mae Maes B wedi cael ei drefnu. Mi fydd y brif ardal ar gyfer yr ieuenctid ym mis Awst yn digwydd yn hen gartref Profiad Dr Who, sy'n golygu y bydd pob elfen o'r Eisteddfod yn digwydd i lawr ym Mae Caerdydd. Yn bersonol i fi, mae'r ffactor yma'n hollbwysig i gael cyfle i ddangos i bobl y ddinas, pobl Cymru a thu hwnt fod twf yn yr iaith Gymraeg yn y brifddinas.

Edrychaf ymlaen yn fawr i glywed lein-yp Maes B, gan y bydd cymysgedd o gerddoriaeth hen a newydd i'w mwynhau. Mae prif gyngherddau'r Pafiliwn wedi dechrau gwerthu mas, felly ewch i wefan Canolfan y Mileniwm os ydych chi eisiau bod yno i fwynhau adloniant a cherddoriaeth o'r safon orau.

Mae'r gronfa leol yn agosáu at ein targed, ond mae dal angen hwb mawr dros y tri mis nesaf. Felly, cariwch mlaen efo'ch gweithgareddau codi arian boed yn fawr neu'n fach. Mae eich holl ymdrechion yn cyfri ac yn ein helpu i gyrraedd ein targed. Hefyd, os gallwch annog eich teuluoedd a ffrindiau ar draws y wlad i gyfrannu at y gronfa gyffredinol sydd yn is na'r arfer eleni, buasai hynny'n help enfawr.



# Pobol y Rhigwm

Croeso i gornel Pobl y Rhigwm unwaith eto. Y dasg a osodwyd dro yn ôl (tasg 13) oedd limrig neu driban yn ymwneud â'r tywydd. Wrth reswm, tywydd anarferol, gaeafol dechrau Mawrth oedd y sbardun i nifer o'r beirdd. O blith y cannoedd o benillion a ddaeth i law, dyma ddau o'r goreuon, ill dau'n cynnig tribannau.

Mis Mawrth fe chwythodd Emma
A'r bwystfil o Siberia;
Gadawyd Dewi a'i ddydd gŵyl
Yn ddi-hwyl dan yr eira.
gan Eira Wen

**Enillydd tasg rhif 13yw**
**Rhian Williams, Rhiwbeina**

Yn sied yr ardd 'roedd berfa
A rhaw ar gyfer eira.
Ond lluwchfa ddaeth wrth ddrws y tŷ,
A minnau'n gaeth tan hindda.
gan Gweneira

Mae'r triban yn fesur pert ag iddo ei sigl ei hun, ond mae angen odl gyrch yn y llinell olaf. Hynny yw, dylai Gweneira fod wedi ceisio odli 'tŷ' ynghanol y llinell olaf, e.e. A dyna *fu* tan hindda. Gan fod **Eira Wen** wedi llwyddo i gael y mesur mwy neu lai'n iawn, ac wedi cyfeirio at 'ddihiryn y dwyrain' a chorwynt Emma, hi biau'r wobr y tro hwn. Llongyfarchiadau mawr iddi.

**Y dasg y tro nesa yw pennill, triban, limrig neu englyn ar ffurf llythyr caru.**
Diarddelir unrhyw gynigion anllad. Anfonwch eich cynigion, yn ôl yr arfer at: db.james@ntlworld.com erbyn **10 Mehefin**.

---

# Cylch Cinio Cymry Caerdydd

Wil Roger Jones, cyn-brifathro Ysgol Botwnnog, oedd y siaradwr yn y Cylch Cinio fis Ebrill, ac fe hoeliwyd ein sylw drwy gydol ei sgwrs am ei ewythr, yr adnabyddus Hugh Griffith. Cawsom bortread o'r actor cymeriad hynod a byrlymus hwn, ond hefyd ddarlun personol o'r ewythr hoff a charedig, gyda dylanwadau ei deulu a'i febyd yn sir Fôn yn drwm arno. Cawsom glywed sut y trodd at yrfa actio'n weddol hwyr, ond yna ennill prif wobrau yn yr Academi Frenhinol cyn gwasanaeth milwrol yn yr India. Roedd ein siaradwr yn cofio ymweld â Hugh a'i wraig yn eu cartref yn Llundain. Rhoddodd hefyd gip tu ôl i'r camera ar ffilmiau megis 'The Last Days of Dolwyn', 'A Run for your Money', 'Tom Jones', ac wrth gwrs 'Ben Hur'; roedd Wil wedi dod â Gwobr yr Academi, a enillodd ei ewythr am ei bortread o Sheik Ilderim yn y ffilm honno, i ddangos i ni.

Ond derbyniodd Hugh Griffith hefyd lawer o fri am ei berfformiadau llwyfan yn Llundain a Stratford, yn enwedig Falstaff a Prospero, ac ar Broadway, lle'r enwebwyd ef am wobr 'Tony'. Er yn dioddef bryd hynny o afiechyd ei ddyddiau olaf, cofir ef am ei berfformiad hoffus yn un o'n ffilmiau teledu Cymreig mwyaf enwog, y 'Grand Slam'. Diolch i Wil am bortread byw, personol a chrwn o'i ewythr, a braf oedd cael cwmni ei wraig Wini gyda ni hefyd. Doedd hi ddim yn syndod wedyn fod cymaint o'r aelodau am lun ohonynt eu hunain gyda'r 'Oscar'!



***Chwith i'r Dde:***
***Is-Lywydd, a Llywydd 2018-9, Bill Davies, Ysgrifennydd 2018-9, Ruth Davies, siaradwr Wil Roger Jones, yn dal yr 'Oscar' a'r Llywydd, Alwyn Evans***

---

**Hoffai'r *Dinesydd* ddymuno'n dda i bob un o blant a phobl ifanc Caerdydd a'r Fro fydd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd Brycheiniog a Maesyfed yn Llanelwedd ddiwedd y mis. Ewch amdani a dewch â llond trol o wobrau'n ôl gyda chi!**

# Merched y Wawr Bro Radur

**Cwis i'r Dysgwyr**

Ar ddechrau Ebrill, cynhaliwyd noson arbennig ar gyfer y dysgwyr, rhai gwrywaidd yn ogystal â rhai benywaidd, er mwyn rhoi cyfle gwych iddynt sgwrsio yn yr heniaith mewn awyrgylch hamddenol a chartrefol.

Ymunodd nifer dda o ddysgwyr ac ambell i diwtor gyda ni. Dechreuwyd y noson gydag un o'r dysgwyr, Huw James, sydd wedi cyhoeddi llyfr o jôcs yn y Saesneg yn cyflwyno jôc yn y Gymraeg am y tro cyntaf. Er bod y jôc yn sôn am hynt a helynt dau o Dregaron, hyfryd oedd gweld bod ambell un o aelodau'r gangen, sydd â chysylltiadau agos â'r dref enwog honno, yn fodlon chwerthin yn uchel!

Yna rhannwyd pawb i dimau ar gyfer cwis a drefnwyd gan Eirian. Sicrhawyd bod pob tîm yn cynnwys dysgwyr a siaradwyr rhugl. Achosodd y rownd gyntaf, lle roedd pob ateb yn rhif, gryn benbleth i sawl un! Mwy llwyddiannus oedd cynigion y timau wrth iddynt geisio adnabod gwledydd o'u silwêt, er i ambell un orfod crafu pen i benderfynu pa ffordd y dylid dal y papur!

Erbyn y drydedd rownd ar Batagonia roedd pawb wedi twymo i'r dasg a chafwyd marciau uchel iawn.

Mae'n amlwg bod y merched wedi gwrando'n astud ar sgwrs Elen a Daniel o Ysgol Plasmawr am y rhan honno o'r byd yn ein cyfarfod y mis diwethaf. Ac i orffen, roedd angen adnabod dywediadau a diarhebion Cymraeg o luniau cryptaidd. Dyma gyfle gwych i'n dysgwyr ddysgu ambell i idiom neu ddihareb Gymraeg newydd.

Tîm Chicago oedd yn fuddugol. Pam Chicago? Wel, yn ddigon syml am fod un o'r aelodau yn dod o'r ddinas honno. Roedd y tîm yma hefyd yn cynnwys dwy aelod o dimau buddugol Bro Radur yng Nghwisys Hwyl Cenedlaethol Merched y Wawr dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Maent yn amlwg yn bencampwyr o fri.

Diolch yn fawr i'r tiwtoriaid am annog aelodau o'u dosbarthiadau i ymuno gyda ni.



*Y tîm buddugol*

# Teulu talentog

O Gershwin i Grieg, o Botessini i Bach ac o William Mathias i William Alwyn, cawsom ein tywys ar siwrne gerddorol wefreiddiol mewn cyngerdd yng nghwmni Emyr Roberts a'i ferched Elen, Hannah a Catrin yng Nghapel Beulah, Rhiwbeina, nos Iau 12 Ebrill. Gydag Emyr ar y piano, Elen ar y bas dwbl, Hannah ar y fiola a Catrin ar y sacsoffon, cawsom ein cyfareddu gan ddoniau cerddorol y teulu hwn o'r pentref.


Mewn digwyddiad a drefnwyd gan Bwyllgor Apêl Rhiwbeina a Llanisien i godi arian i'r Eisteddfod Genedlaethol, cafodd y gynulleidfa niferus fwynhau rhaglen amrywiol o gerddoriaeth, ar ffurf unawdau a mwy nag un ensemble. Yn deulu adnabyddus yn y pentref, ac yn wynebau cyfarwydd sy'n cymryd rhan yng ngwasanaeth noswyl Nadolig Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina bob blwyddyn, pleser o'r mwyaf oedd rhoi'r llwyfan i Elen a Hannah, sy'n astudio yn yr Academi Gerdd Frenhinol, Catrin, sy'n ddisgybl blwyddyn 10 yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, a'u tad, Emyr, sy'n gerddor dawnus.

Mewn rhaglen oedd wedi'i saernïo'n fanwl, cawsom wrando ar wledd o berfformiadau, o'r llon i'r lleddf, o'r cyfoes i'r clasurol - roeddent wedi paratoi rhywbeth at ddant pawb! Gyda'r gynulleidfa ar ei thraed yn cymeradwyo ar y diwedd, roedd hi'n amlwg fod y teulu cyfan wedi taro'r nodyn cywir!

Dymuna'r pwyllgor ddiolch o waelod calon i'r pedwar am roi o'u hamser a'u doniau i'n hymdrechion i godi arian ac i bawb a ddaeth i gefnogi ar y noson gan roi hwb sylweddol i'r coffrau.



**Rhif: 182**



## Ar Draws

1. Trip i'r Aifft i Dei neu'r brodorion (8)
6. Crasu piod brith ar yn ail (4)
8. Gadael ôl ar gar tolciog swnllyd (6)
9. Esbonio sut i orchuddio ag aur y gôl wag (6)
10. 'Fel na chlywn y gynnau'n rhuo
    ----- ----- am gân y dyddiau gwell' (Cynan) (3,7)
12. Bod yn ofalus o fodur annwyl Simon. (6)
14. Y Sadwrn bron gorffen mewn dryswch a dychryn (6)
15. 'Dacw 'nhw y lili fach,
    Mint ----- ----- ----- -----' ( Crwys)(1,4,1,4)
19. Tylluan mewn mwgwd i hwrdd (6)
20. Ie, dadl fywiog am ddifodiant (6)
21. Amser i ddechrau astudio daearyddiaeth ein gwlad (4)
22. 'Dyfod pan ----- ----- -----,
    Myned pan êl y maent' (RWP) (3,1,4)

## I Lawr

2. 3 yn colli dim wrth droi'n babell (4)
3. Cloddio yn y clwstwr iorwg (5)
4. Mae coginio ffa duon cyn Awst 3ydd yn anlwcus (7)
5. Drysu'r dewin anadnabyddus (5)
6. Pawen ac esgyrn yr ysgwydd (7)
7. 'Am hynny arwain gam a cham
   Fi i'r ----- draw' (WW) (8)
11. Cant aeth i godi Dewi o'i garchariad (8)
13. Aderyn sy'n ddi-ddal yn y gwynt (7)
14. 'A thra'm teflir yma ac acw
    Ar ----- donnau'r byd' (ET) (7)
16. Gwasgu'r arweinydd am awgrym (5)
17. Cael trem ar y cylchgrawn (5)
18. Ariandy ar y bryn (4)

**Enillydd Croesair Rhif 180**
**Wyn Rees, Pentyrch**

**Atebion Croesair Rhif 180**

**Ar Draws:** 1. Cysgod sydyn 7. Adferiad 8. Berw 9. Enid 11. Cerddorfa 13. Lolfa 14. Menyw 16. Soniarus 18. Odyn 21. Llesg 22. Cernodio 23. Ar ffawydd fwrdd

**I Lawr:** 1. Cragen las 2. Safri 3. Oeri 4. Siaced 5. Yn blodeuo 6. Cryf 10. Dyfeisgar 12 A gwyntoedd 15. Ffugenw 17. Ofer 19. Dudew 20. Anodd

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Mehefin, 2018
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6AN


---

# Cronfa Glyndŵr

Braint i Gronfa Glyndŵr yw cael cyhoeddi mai Cennard Davies o Dreorci yw Llywydd Anrhydeddus newydd y Gronfa. Bydd yn olynu'r Arglwydd Gwilym Prys Davies, un o sylfaenwyr y Gronfa, a fu farw'r llynedd.

Brodor o Gwm Rhondda yw Cennard Davies a derbyniodd ei addysg yn Ysgol y Porth cyn graddio o Brifysgol Abertawe. Bu'n darlithio yng Ngholeg Addysg Caerdydd ac yna yn Bennaeth Astudiaethau Ieithyddol ym Mhrifysgol Morgannwg. Mae'n adnabyddus ledled Cymru fel arweinydd ac arloeswr ym maes Cymraeg i Oedolion a chyhoeddodd nifer o lyfrau ar gyfer dysgwyr. Roedd yn adnabyddus iawn fel un o diwtoriaid Catchphrase ar Radio Wales.

Yn y Rhondda, ymgyrchodd dros addysg Gymraeg am ddegawdau a bu'n Gadeirydd Cenedlaethol Mudiad Ysgolion Meithrin yn y saithdegau. Bu'n gynghorydd sir ac yn weithgar iawn yn ei gymuned gyda phapur bro *Y Gloran,* Cymdeithas Gymraeg Treorci a gyda chapel Hermon.



***Cennard Davies***
***Llywydd Anrhydeddus***

Dwedodd Catrin Stevens, Cadeirydd Cronfa Glyndŵr, am y penodiad, "Rydym wrth ein bodd fod Cennard Davies wedi cytuno i dderbyn ein gwahoddiad i fod yn Llywydd Anrhydeddus. Mae parch aruthrol iddo ledled Cymru am ei gyfraniad amhrisiadwy i Gymru a'r Gymraeg. Bydd yn gaffaeliad mawr i'r Gronfa wrth i ni geisio 'gwneud gwahaniaeth' i addysg cyfrwng Cymraeg a chyfrannu at y nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050."

Prif nod Cronfa Glyndŵr yw hyrwyddo addysg Gymraeg trwy gynnig grantiau bychain i gylchoedd meithrin, ysgolion unigol a mudiadau eraill sy'n gwneud gwaith i ddatblygu addysg Gymraeg. Gellir gweld manylion llawn ar y wefan - http://www.cronfaglyndwr.cymru/.

## THEATR BARA CAWS

yn cyflwyno

### 'BRÊCSHIT'

**sioe glybiau newydd sbon**

Mae teulu Doris Morris wedi bod yn ffarmio yn Bryn-Cwd-yr-Arian ers canrifoedd, ond yn dilyn canlyniad y bleidlais Brexit mae Doris druan wedi gorfod arallgyfeirio. Bellach mae hi'n rhedeg clinig therapiwtig a hafan i bobl â phob math o broblemau. A fydd rhedeg busnes o'r fath yn cadw'r blaidd o'r drws? A fydd Doris yn llwyddo i gadw ei hetifeddiaeth? A pha mor iachus ydy 'colonic irrigation' i rywun mewn gwirionedd? - Cawn weld!

**Actorion:** Iwan Charles, Manon Elis, Llyr Evans, Gwenno Elis Hodgkins

**Cyfarwyddwr:** John Glyn Owen

Clwb Rhyddfrydwyr Canton, Caerdydd, nos Iau, 24 Mai, a Chanolfan Gartholwg ar y 25 a 26 o Fai.




---

# Llongyfarchiadau Beti



Yn Efrog Newydd ar y 10fed o Ebrill, fe enillodd y rhaglen *Beti and David: Lost For Words* wobr aur yn y *New York Festivals International TV & Film Awards*. Rhaglen ddogfen yw hon sy'n tynnu sylw at brofiadau enbyd y rhai sy'n gofalu am bobl â *dementia*.

Bydd darllenwyr y *Dinesydd* yn cofio colofn Beti George, 'Whalu Meddilie'. Ei thema gyson oedd *dementia* a'r frwydr anodd sy'n wynebu gofalwyr y bobl sy'n dioddef o'r cyflwr. Roedd Beti'n siarad o brofiad, wrth gwrs, gan ei bod ers 2009 wedi gofalu am ei chymar, y darlledwr adnabyddus, David Parry-Jones.

Bu Beti'n ymgyrchu'n ddygn am fwy o gefnogaeth a chynhaliaeth i'r gofalwyr. "Mae angen chwyldro yn y maes yma yng Nghymru," meddai. Gwahoddodd gamerâu y BBC i'w chartref yn Radur i ffilmio ei phrofiadau dyddiol o ofalu am David. Hyn oedd y sail i'r ffilm ddogfen uchod, a ddangoswyd ar sianel deledu BBC Cymru y llynedd.

Roedd Beti yn Efrog Newydd i dderbyn y wobr ac meddai, "Profiad chwerw-felys oedd hyn gan i'r seremoni ddigwydd flwyddyn union i'r diwrnod ar ôl i fi golli David."

Llongyfarchiadau, Beti! Mae eich profiad ym myd y cyfryngau yn eich gosod mewn sefyllfa unigryw i 'wneud gwahaniaeth' – a chael tegwch i'r teuluoedd sy'n dioddef dan gwmwl *dementia.* Gobeithio y medrwch barhau â'r ymgyrch am y chwyldro a chael cefnogaeth deilwng o fewn Cymru i gyrraedd y nod.

---

## CYFARFOD BLYNYDDOL Y DINESYDD

**Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Y Dinesydd**
**nos Fawrth, 12 Mehefin, am 7.30pm**
**yng nghapel Bethel, Maes y Deri, Rhiwbeina.**

**Croeso i holl ddarllenwyr y papur**

## Y DIGWYDDIADUR

### Mai

**Sadwrn, 12 Mai**
Bore coffi rhwng 10.30 a 12.00 ar gyfer y rheini sy'n awyddus i ymarfer eu Cymraeg. Am 11.00am bydd sgwrs gan Dr Phil Ellis ar y testun 'Y Jôc'. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays, CF24 4DX. Croeso cynnes i ddysgwyr a siaradwyr rhugl.

**Sadwrn, 12 Mai**
Cymdeithas Carnhuanawc. Ymweliad ag Abertawe ac Ystumllwynarth. Cwrdd yng ngorsaf reilffordd Abertawe am 11.00am. Manylion pellach: alan@alanjobbins.cymru

**Llun, Mai 14**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yn Jolyons, 10 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ, am 7.00pm ar gyfer 7.30 pm. Gwestai: Siân Eirian Hughes, Cyn-drefnydd Eisteddfod yr Urdd a Chyn-gyfarwyddwraig Rhaglenni Plant S4C ('Cyw' a 'Stwnsh'!). Croeso i bawb ymuno â ni, drwy gysylltu â'r Ysgrifennydd, Peter Gillard (pagillard@yahoo.com, neu 07859-007406), i archebu lle, o leiaf wythnos o flaen llaw.

**Llun, 14 Mai – Mercher, 16 Mai**
Theatr Genedlaethol Cymru yn cyflwyno 'Estron' gan Hefin Robinson yn Chapter am 7.00pm (gyda pherfformiad hefyd am 2.00pm ar 15 Mai). Manylion pellach: 029-2030-4400.

**Mercher, 16 Mai**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Taith Wanwyn i Gwm Rhondda dan arweiniad Cennard Davies.

**Mercher, 16 Mai**
Cymdeithas Cymru-Ariannin (Cangen y De). Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, i'w ddilyn â sgwrs gan yr Athro E. Wyn James ar y testun 'Eluned Morgan, Mair ap Iwan a Chaerdydd'. Yn Eglwys Gyfannol Treganna (*Canton Uniting Church*), Heol Ddwyreiniol y Bont-faen, Treganna, CF5 1LQ, am 7.30pm.

**Gwener, 18 Mai**
Cynhelir Noson Lawen yng Nghanolfan Palmerston, Y Barri, i godi arian at gronfa Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd. Cyd-fenter yw hon rhwng Cymrodorion y Barri a Dysgu Cymraeg y Fro. Ymysg y perfformwyr bydd Aled Hughes, Côr Dysgwyr y Fro, Eiry Palfrey, Mared Furnham a'r delynores Marged Hall. Cyflwynydd: Euryn Ogwen Williams. Manylion pellach: Gareth Thomas (01446-771728) neu Mared Furnham (01446-730402).

**Gwener, 18 Mai**
Cabaret dwyieithog yng nghwmni Connie Off a gwesteion arbennig, yn Ffresh, Canolfan Mileniwm Cymru, am 9.00pm. Tocynnau: £15. Manylion pellach: 029-2063-6464.

**Sadwrn, 19 Mai**
Miri Mai. Hwyl i'r teulu cyfan! Stondinau, adloniant a llawer mwy, yn Ysgol Bro Edern rhwng 10.00am ac 1.00pm. Er budd Pwyllgor Pen-y-lan, Cyncoed, Cathays a'r Rhath, Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd.

**Sadwrn, 19 Mai**
Coffi a chlonc i ddysgwyr yn Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, Caerdydd, CF10 3DD, rhwng 10.30 a 12.00. Mae croeso i chi ddod am baned ac i sgwrsio.

**Llun, 21 Mai**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Cyngerdd gan Gôr yr Einion, yng nghapel Bethel, Maesyderi, am 7.30pm. Tâl mynediad: £5.

**Llun, 21 Mai**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. Darlith gan Dr Eleri Davies (Prifysgol Caerdydd) ar y testun 'Wynebu'r Sialens o Ddyfodol heb Wrthfiotegau', yn Ystafell 0.77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

**Iau, 24 Mai**
Theatr Bara Caws yn cyflwyno 'Brêcshit', sioe glybiau newydd sbon, yng Nghlwb Rhyddfrydwyr Treganna am 8.00pm.

**Mercher, 30 Mai**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Sgwrs gan Nerys Howells ar y testun 'Wrth y Bwrdd', yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

### Mehefin

**Mercher, 6 Mehefin**
Merched y Wawr, Bro Radur. Trip Haf o amgylch Stiwdios Pobol y Cwm, Bae Caerdydd. Lluniaeth i ddilyn. Croeso cynnes.

**Sadwrn, 9 Mehefin**
Bore coffi rhwng 10.30 a 12.00 ar gyfer y rheini sy'n awyddus i ymarfer eu Cymraeg. 'Bore Siarad.' Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays CF24 4DX. Croeso cynnes i ddysgwyr a siaradwyr rhugl.

**Sul, 10 Mehefin**
Bydd Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC yn ymuno â Gruff Rhys ar gyfer première ei albwm newydd sbon, *Babelsberg*. Yn Theatr Donald Gordon, Canolfan Mileniwm Cymru, am 8.00pm. Manylion pellach a thocynnau: www.wmc.org.uk; 029-2063-6464.

**Mawrth, 12 Mehefin**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Brethyn Cartref, yn neuadd Eglwys Fethodistaidd Cyncoed (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed), am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb.

**Mercher, 13 Mehefin**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Sgwrs gan Gillian Green ar y testun 'Byd Cerdd a Mi', ynghyd â the mefus, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

**Iau, 14 Mehefin**
Noson o gerddoriaeth gan y cerddor a'r offerynnwr o Gaerdydd, 'The Gentle Good' (sef Gareth Bonello) a'r Mavron Quartet, yn Stiwdio Weston, Canolfan Mileniwm Cymru am 7.30pm. Manylion pellach a thocynnau: www.wmc.org.uk; 029-2063-6464.

**Gwener, 15 Mehefin**
Gwenno Saunders yn dathlu bywyd a gwaith Edrica Huws (1907–2007), y bardd a'r arloeswraig ym myd clytwaith, drwy berfformiad electronig byw yn llawn sain a llun. Yn Stiwdio Weston, Canolfan Mileniwm Cymru, am 7.30pm. Manylion pellach a thocynnau: www.wmc.org.uk; 029-2063-6464.

**Gwener, 15 Mehefin**
'Epilog': sioe wedi ei churadu gan Dyl Mei sy'n seiliedig ar rai o ganeuon yr operâu roc Cymraeg amrywiol a berfformiwyd gyntaf yn y 1970au a'r 1980au. Yn y Theatr Newydd am 7.30pm.

**Sadwrn, 16 Mehefin**
Coffi a chlonc i ddysgwyr yn Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, Caerdydd, CF10 3DD, rhwng 10.30 a 12.00. Mae croeso i chi ddod am baned ac i sgwrsio.

I anfon gwybodaeth i'r Digwyddiadur gweler y manylion ar dud. 2

# CERDYN POST O GAEREDIN

## Lowri Haf Cooke yn holi Manon Mathias

***Mae Manon Mathias, sy'n 33 oed, yn ddarlithydd Ffrangeg ac yn byw gyda'i gŵr, Lewis, yng Nghaeredin.***

**Un o ble ydych chi'n wreiddiol?**
Cefais fagwraeth hapus iawn yn yr Eglwys Newydd. Es i Ysgol Gynradd Melin Gruffydd ac yna i Ysgol Glantaf. Roeddwn i wrth fy modd fel plentyn yn crwydro ar hyd Llwybr Taf ac yn mwynhau partïon pen-blwydd yn ein tŷ ni ar Heol Don.



**Pryd a sut glanioch chi yng Nghaeredin a beth ydych chi'n ei wneud yno?**
Fe symudon ni i Gaeredin yn 2015 pan ddechreuodd fy ngŵr (sy'n Albanwr) swydd ym Mhrifysgol Caeredin a minnau ym Mhrifysgol Aberdeen. Rwyf bellach yn ddarlithydd Ffrangeg ym Mhrifysgol Glasgow. Bydda i'n teithio yno ar y trên, tua 50 munud o siwrne - cyfle i wneud ychydig o waith wrth deithio.

**Disgrifiwch eich diwrnod delfrydol yng Nghaeredin...**
Mynd i redeg ar ddydd Sadwrn ym Mharc Holyrood, yna brecwast Albanaidd, sylweddol. Mae'r un peth yn y bôn â brecwast mawr Cymreig, ond gan gynnwys hefyd haggis, pwdin gwaed Stornoway, a *tattie scones*! Mae caffi (a siop fara) Loudons yn fendigedig ond ein ffefryn lleol am frecwast mawreddog yw'r Olive Branch Bistro: lle hamddenol braf, gwasanaeth gwych, a phob math o ddanteithion yno. Wedi hynny, mynd i grwydro yn y Gerddi Botaneg ac ym Mharc Inverleith, gan alw yn Stockbridge ar y ffordd adref i brynu caws blasus i'w fwynhau gyda gwydraid neu ddau o win gyda'r nos.

**Pa 3 lle yng Nghaeredin y byddech chi'n annog i rywun o Gaerdydd a'r Fro eu profi, er mwyn cael blas go dda o'r ddinas honno?**
W! Cwestiwn anodd! Un o'r pethau braf am Gaeredin yw'r ffaith bod y ddinas mor agos at y môr a'r mynyddoedd. Am olygfeydd bendigedig buaswn i'n argymell dringo i fyny Arthur's Seat. Princes Street yw'r stryd enwocaf ond os hoffech ymweld â'r siopau gorau yna George Street, sef y stryd gyfochrog y tu ôl iddi, yw'r un. Er mwyn cael blas ar bensaernïaeth hardd ac urddasol y ddinas buaswn yn awgymru crwydro drwy'r Hen Dref a'r Dref Newydd.

**Beth yw'r pryd bwyd gorau gawsoch chi yng Nghaeredin?**
Cwestiwn anodd eto! Er ein bod wedi byw yma ers dros ddwy flynedd, megis dechrau rydyn ni o ran ymweld â'r cannoedd o lefydd bwyta sydd ar gael. Dw i wedi mwynhau sawl pryd penigamp yma gyda theulu a ffrindiau, gan gynnwys mynd i dafarn bwyd enwog Scran & Scallie. Ond y pryd bwyd gorau oedd yn Number One Princes Street, i ddathlu pen-blwydd cyntaf ein priodas - y troli caws yn arbennig! Nefoedd...

**Ble mae'r olygfa orau yno?**
Er bod golygfa wych o Arthur's Seat, dw i'n hoff iawn o ddringo Calton Hill: dim ond rhyw ddeng munud o gerdded ac fe welwch chi'r olygfa eang i lawr dros Princes Street a chloc y Balmoral, yna i'r gogledd tuag at y Firth of Forth a'r Bass Rock ar y pen arall, a'r olygfa dros Balas Holyrood. Mae bod ar ben y bryn hwn yn falm i'r enaid, yn enwedig wrth wylio'r haul yn machlud.

**Beth ydych chi'n ei golli fwyaf am Gaerdydd?**
Fy nheulu.

---

## Pabell y Cymdeithasau Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd

Ydych chi'n aelod o gymdeithas neu sefydliad yn y ddinas sydd wedi bod yn meddwl sut i gymryd rhan yn yr Eisteddfod fis Awst?

Beth am drefnu sesiwn yn un o'r pebyll Cymdeithasau fydd wedi eu lleoli yn adeilad y Senedd eleni?

Mae amserlen y Cymdeithasau ymysg y mwyaf diddorol ac amrywiol ar y Maes, ac er mai'r Eisteddfod ei hun sy'n rhedeg y pafiliynau, mae modd i unrhyw gymdeithas neu sefydliad gysylltu i gynnal sesiwn yma. Dyma gartref trafodaeth yn yr Eisteddfod, ac efallai bod Cymdeithasau'n un o gyfrinachau mawr y Maes.

Mae rhai cymdeithasau'n cynnal cyfarfodydd yma gan fod yr Eisteddfod yn yr ardal leol, ond mae amryw yn dod atom yn flynyddol gan fod yr Eisteddfod yn gyfle iddynt ddenu cynulleidfa o bob rhan o Gymru. Mae'r amserlen yn llawn o ddarlithoedd, sesiynau trafod, aduniadau, pob math o weithgareddau.

Dilynwch y linc isod am fwy o wybodaeth ac i weld pa sesiynau sydd ar gael.

https://eisteddfod.cymru/lleoliadaur-maes/cymdeithasau/llogi-sesiwn-cymdeithasau

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Ni fu cyfarfod ym mis Ebrill, ond byddwn yn cynnal cyfarfod olaf ein rhaglen ar Fai 21ain. Byddwn yn croesawu Dr Eleri Davies i draethu ar y testun, Wynebu'r Dyfodol Heb Wrthfiotegau. Croeso i bawb.

Ar y 14eg o Fawrth eleni bu farw'r Athro Stephen Hawkin yn 76 oed. Go brin bod yr un gwyddonydd cyfoes wedi ennyn mwy o gyhoeddusrwydd trwy'r cyfryngau torfol a'r wasg na Hawking. Pam y gwyddonydd hwn? Yn sicr, mae campau gwyddonol Hawking, cosmoleg yn benodol, yn teilyngu anrhydedd; ni fu'r gymuned wyddonol ym Mhrydain a thu hwnt yn araf yn cydnabod hyn dros flynyddoedd lawer. Ond gellid dweud hynny am lawer o wyddonwyr eraill, megis Roger Penrose, cosmolegydd o fri ym Mhrifysgol Rhydychen.

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng Hawking a Penrose? Yn syml, bu un yn holliach yn gorfforol a'r llall yn bell o hynny. Yn ddi-os, testun rhyfeddod ac edmygedd yw bod Hawking wedi medru cynnal ei waith gwyddonol ar lefel uchel iawn o safon tra'n dioddef, dros hanner can mlynedd, effeithiau enbyd ei salwch. Ni fu'r cyfryngau, ac felly'r cyhoedd, yn araf i wneud yn fawr o'i stori.

Gellid dadlau bod amlygiad cyhoeddus Hawking wedi dechrau yn 1988 gyda chyhoeddi ei lyfr *A Brief History of Time*. Bwriad y llyfr oedd cyflwyno i leygwyr hanfodion gwyddonol y testun astrus hwn. Llwyddodd yn rhyfeddol yn hyn o beth gyda gwerthiant o filiynau o gopïau. Ond gwir achos y llwyddiant oedd i'r awdur gynnwys y sylw y byddai dilyn trywydd ei astudiaethau cosmolegol yn ein galluogi i 'nabod meddwl Duw' *(Know the mind of God)*. Ar ba sail crefyddol a diwinyddol y mentrodd Hawking ddatgan hyn? Pwy a ŵyr? Yn nes at y gwir yw bod llwyddiant y llyfr yn deillio o graffter y cyhoeddwyr. Mae'n hen hanes bod gwerthiant llyfr gwyddoniaeth 'poblogaidd' yn gostwng yn sylweddol os oes ynddo hyd yn oed un hafaliad mathemategol ac yn codi'n sylweddol os oes cyfeiriad negyddol at grefydd. Gyda'r cychwyn rhyfeddol hwn, gan gydnabod gwerth gwyddonol y gyfrol, does dim rhyfedd bod bywyd cyhoeddus ac enwogrwydd Hawking wedi mynd i sawl cyfeiriad megis ffilmiau, cyfresi teledu *(The Simpsons)* a derbyniad gan yr Arlywydd Obama.

I fod yn deg â Hawking, mae ei ddatganiadau cyhoeddus am grefydd yn dangos cysondeb clodwiw megis, Nid oes Duw. Nid oes nefoedd. Anffyddiwr wyf.

Yn rhifyn cyfredol y cyhoeddiad *Physics World*, cylchgrawn misol y Sefydliad Ffiseg (Institute of Physics), ceir ysgrif yn dwyn y teitl *Physicists mourn Stephen Hawking*. Nodir bod nifer o wyddonwyr wedi beirniadu Hawking am ei haerllugrwydd yn defnyddio'r term 'nabod meddwl Duw'. Bydd cofiant llawnach yn y rhifyn nesaf. Pan holwyd 130 o ffisegwyr disglair am eu dewis o'r person a gyflawnodd fwyaf yn y maes cafodd Hawking un bleidlais.

Mewn teyrnged dywedodd Martin Rees, Y Seryddwr Brenhinol, '….cafodd miliynau y profiad o estyn eu gorwelion cosmolegol trwy ei lyfrau ac yn fwy gan ei esiampl o gyrhaeddiad yn erbyn pob disgwyl…. Pe bai Hawking wedi ennill disgleirdeb tebyg mewn, dyweder, geneteg yn hytrach na chosmoleg, o bosib ni fyddai ei fuddugoliaeth o ddawn yn erbyn adfyd wedi ennill yr un sylw gan y cyhoedd ar draws y byd...'.

*Neville Evans*

---

# Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd

Bu mis Ebrill yn fis diddorol iawn oherwydd yr amrywiaeth o gyfarfodydd i lonni calon pob un o'r aelodau.



Ar Ebrill 4ydd, y chwaraewr rygbi disglair a Chymro da, genedigol o Gaerdydd, Rhys Patchell, oedd y siaradwr. O'r foment gyntaf, teimlai'r gwrandawyr yn gwbl gartrefol yn gwrando arno yn olrhain ei hanes o'r cyfnod cynnar hyd at y presennol fel aelod disglair o'r Gleision gynt ac yn awr i'r Sgarlets a Chymru. Synnwyd pawb wrth iddo sôn am ddwyster yr ymarfer o ddydd i ddydd, o wythnos i wythnos, a chefnogaeth teulu a hyfforddwyr wedi ei wneud yn gystal chwaraewr. Diolchwyd am ei bersonoliaeth agos atom a'r hwyl wrth gyflwyno ei brofiadau ar draws y byd.

Yna, ar y 18fed o'r mis daeth dau o fyfyrwyr Academi Llais Rhyngwladol Cymru (Live Music Now) i'n diddori a'n swyno'n llwyr. Y soprano oedd Elizabeth Reeves o Philadelphia, yr Unol Daleithiau. Gyda môr o lais disgybledig canodd raglen ddiddorol o arias gan Mozart, Dvorak, Puccini ac eraill.

Cyflwynodd y tenor, Henry Ngan o Hong Kong, amrywiaeth o gerddoriaeth Eidalaidd mewn llais swynol, anghyffredin o gyfoethog. Cyfeiliwyd iddynt yn gelfydd iawn gan Siân Davies, sy'n enedigol o'r Rhondda. Bu'n wledd i'r glust ac i'r llygad wrth wrando ar y myfyrwyr disglair hyn – prynhawn i'w gofio!



# Gwylio'r Geiniog

*"I'r rhai sydd heb ymddeol, a ydych chi'n gwybod pa bensiynau sydd gyda chi? "*

## Huw Roberts



**Blwyddyn Dreth Newydd o 6 Ebrill**
Daeth newyddion da gan Lywodraeth Cymru. Pan fydd unigolyn yn mynd i gartref preswyl i fyw mae'r swm y gellir ei gadw wedi codi o £30,000 i £40,000.

Newyddion da hefyd am yr Haen Cyfradd Sero Preswyl (Residence Nil Rate Band) gyda Threth Etifeddiaeth. Eich lwfans personol yw £325,000 a £650,000 i bâr priod. Mae'r lwfans uchod yn werth £125,000 ychwanegol a £250,000 am bâr priod. Golyga hyn y gall unigolyn adael £450,000 a phâr priod £900,000 cyn dechrau talu Treth Etifeddiaeth. Gall y lwfans newydd arbed hyd at £50,000 o dreth i unigolyn a £100,000 i bâr priod.

Newyddion drwg, fodd bynnag, i unigolion sy'n derbyn incwm difidend gyda'r lwfans yn gostwng o £5,000 i £2,000, i unigolion ag incwm o eiddo a morgeisi sy'n talu treth @ 40% ac i yrwyr ceir cwmni.

**Morgeisi Rhyddhau Ecwiti**
Mae'r rhain yn gallu bod yn fanteisiol i bobl sydd â chartref gwerthfawr ond heb lawer o arian yn y banc. Ond mae'r gost yn gallu bod yn drwm. Ystyriwch yn fanwl cyn dechrau cynllun newydd.

**Pensiynau**
I'r rhai sydd heb ymddeol, a ydych chi'n gwybod pa bensiynau sydd gyda chi? Gwnewch grynodeb o ble rydych chi wedi gweithio a pha gyfraniadau a wnaethpwyd. Mae'n syndod faint o bensiynau sy'n cael eu hanghofio dros y blynyddoedd oherwydd prysurdeb bywyd.

Os ydych wedi ymddeol, cadarnhewch eich bod yn cael eich pensiynau yn rheolaidd. O bryd i'w gilydd, fe all cwmnïau orffen gwneud taliadau oherwydd camgymeriadau / diffyg atebion i lythyron / newid cyfeiriad.

*Mae Huw yn gyfrifydd sy'n arbenigo mewn treth incwm, ewyllysiau a gwaith profiant. Cysylltwch ar huwrobertsaccountant@gmail.com*
*029 2069 4524 neu drwy*
*www.huwrobertsaccountant.cymru*

---

## ADDYSG GYMRAEG – YR YSGOLION CYNRADD 2018/19

Mae gwybodaeth am fynediad i'r ysgolion cynradd Fedi nesaf ar gael ac mae braidd yn siomedig unwaith eto. Mae cyfanswm o 771 plentyn wedi ceisio lle eleni o gymharu ag 847 y llynedd a 714 wedi cael lle o gymharu â 718, sef y ffigwr terfynol Hydref diwethaf. Felly, am yr ail flwyddyn mae diffyg twf a nifer llai wedi cael lle o gymharu â chyfanswm o 747 yn 2016

Mae 8 ysgol yn llawn (10 y llynedd) sef Y Wern, Treganna, Melin Gruffydd, Mynydd Bychan, Pencae, Nant Caerau a Pen y pil gyda Glan Ceubal yn llawn am y tro cyntaf. Mae'r grŵp yng nghanol gogledd Caerdydd sef Y Wern (13 yn methu), Melin Gruffydd (6), Mynydd Bychan (11) a Pencae (7) o dan lai o bwysau gyda 37 wedi'u gwrthod eleni yn lle'r 66 a wrthodwyd y llynedd, ond mae'n amlwg bod y galw yn yr ardal eang hon yn parhau yn broblem nad oes ond un ffordd o'i datrys sef darparu rhagor o le yn rhywle cyfleus sy'n golygu ar safle arall am nad oes modd ehangu'r un o'r 4 ysgol ar eu safleoedd presennol. Dyw problemau'r 4 ysgol arall ddim mor ddwys: mae cynlluniau ar y gweill i ehangu Nant Caerau (5 yn methu) a Pen y pil (1). Mae 13 cais dros ben y lle sy ar gael yn Nhreganna (o gymharu â diffyg o 24 y llynedd) ond mae lle ar gael yn ysgolion Pwll Coch (11 ar gael) a Hamadryad (31) sy'n weddol agos. Mae'n werth nodi bod y galw yn y pedair ward (Treganna, Glan-yr-afon, Grangetown a'r Bae) nawr wedi cyrraedd 181 sy'n dechrau agosáu at y cyfanswm o leoedd sy ar gael rhwng y 3 ysgol (210) ac yn cyfiawnhau'r ymgyrch am ysgol arall yn yr ardal. Fe fyddai'n synhwyrol derbyn yr un plentyn a fethodd gael lle yn Ysgol Glan Ceubal yno am fod lleoedd gwag niferus yn yr ysgol os nad yn y dosbarth.


O'r 9 ysgol sydd â lle gwag mae 4 yn bur agos at fod yn llawn – Y Creigiau (1 lle), Bro Eirwg (5), Gwaelod-y-garth (3) a'r Berllan Deg (4). Mae 2 o'r lleill yn ysgolion ar eu prifiant fydd yn symud i adeiladau newydd cyn hir, sef Glan Morfa (34 plentyn/60 lle) a Hamadryad (29 plentyn/60 lle). Dyw Penygroes (12/30), a sefydlwyd yn 2007 ond a dderbyniodd ddisgyblion am y tro cyntaf yn 2009, ddim erioed wedi derbyn mwy na hanner y plant posibl. Efallai bydd plant o ddalgylch y Wern yn ystyried ceisio yma. Coed-y-gof yw'r un olaf i'w hystyried lle mae 33 wedi ceisio'r 60 lle, ond yn aml mae'r ysgol hon yn llenwi yn ystod yr haf.

Rwy'n mawr obeithio y bydd canran sylweddol o'r 57 sydd wedi methu â chael lle ar y cynnig cyntaf yn derbyn ail ddewis heb fod nepell i ffwrdd ac yn ychwanegu o leiaf 40 at y cyfanswm i adfer twf yn y nifer sy'n dechrau addysg Gymraeg yn y ddinas eleni.

*Michael Jones*

---





BRAGDY'R BEIRDD
Y SIWPER STOMP!
Cystadleuaeth farddol fwya'r mileniwm!
ANEURIG ANNI LLŶN
GWYNETH GLYN
RHYS IORWERTH
OSIAN RHYS JONES
CATRIN DAFYDD
LLYR GWYN LEWIS
GWENNAN EVANS
GRUFFUDD OWEN CASIA WILIAM
SIAN NORTHEY IWAN RHYS
Eisteddfod
Genedlaethol
Caerdydd
Nos Lun
6 Awst - 20:00
Canolfan Mileniwm Cymru
Tocynnau:
Eisteddfod.cymru
0845 4090 800


EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU
YN CYFLWYNO / PRESENTS
HWN YW FY MRAWD
SYR BRYN TERFEL
YN COFIO / REMEMBERS
PAUL ROBESON
ARWR I GYMRU, ARWR I'R BYD
GEIRIAU / WORDS
MERERID HOPWOOD
CERDDORIAETH / MUSIC
ROBAT ARWYN
PAFILIWN, CANOLFAN MILENIWM CYMRU
PAVILION, WALES MILLENNIUM CENTRE
20:00, 3-4 AWST / AUGUST 2018
TOCYNNAU / TICKETS (O / FROM 03.04.18):
WWW.EISTEDDFOD.CYMRU / 0845 4090 800
CYFIEITHU AR Y PRYD AR GAEL
ENGLISH TRANSLATION AVAILABLE
NODDWR / SPONSOR
Prifysgol Abertawe
Swansea University
Paul Robeson